

**CYNGOR CYMUNED  
LLANFAIR DYFFRYN CLWYD  
COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair D.C. nos Fercher, 4 Mai 2016 am 7 o'r gloch.

Presennol:- Y Cynghorwyr Keith Mouldsdales (Cadeirydd), Steve Whipp, John Pugh, Jayne Mayers, Wini Davies, Dennis Edwards, Tim Faire a David Baker.

Trigolion:- David Greenhalgh.

Anfonwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Medwen Roberts.

**215. MATERION YN YMWNEUD Â MARWOLAETH MICHAEL SHORTER, CLERC Y CYNGOR**

Cynhaliwyd y cyfarfod ychydig ddyddiau yn unig ar ôl marwolaeth sydyn y Clerc, Michael Shorter.

Mynegodd y Cyngor ei dristwch ar ôl clywed am farwolaeth Michael a phenderfynwyd anfon cydymdeimlad at ei deulu.

Cynigiwyd camau gweithredu i gasglu'r dogfennau megis manylion bancio, llyfrau cyfrifon ac offer yn ogystal ag ymdrin â materion angen sylw.

Ni luniwyd agenda ac nid oedd cofnodion o'r cyfarfod blaenorol ar gael. Roedd David Davies o Gyngor Sir Ddinbych wedi cynghori y gellid cynnal y cyfarfod cyn belled ag y cedwid cofnodion. Hefyd cynigion Mr Davies ganfod a oedd unrhyw Glercod eraill a allai gynnig cymorth iddynt yn y tymor byr.

Dylai'r cyfarfod fod wedi ymdrin ag ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd ond penderfynwyd gohirio hyn nes bo'r sefyllfa gyfredol wedi'i datrys a Chlerc newydd wedi'i benodi. Cynigiodd KM barhau fel Cadeirydd nes cyrraedd yr adeg honno. Bryd hynny byddai John Pugh yn dod yn Gadeirydd gyda Steve Whipp yn Is-gadeirydd a Jayne Mayers i gamu i mewn y flwyddyn ganlynol.

Roedd David Davies wedi darparu hysbyseb enghreifftiol ar gyfer penodi Clerc a drafftiodd y cyfarfod hysbyseb newydd addas. Cytunodd SW i ddrafftio'r hysbyseb a'i anfon at Gynghorwyr eraill i gael eu sylwadau. Byddai'r hysbyseb yn ymddangos yn y Free Press a'r Daily Post. Byddai'n cael ei arddangos ar hysbysfwrdd y pentref ac yn cael ei gynnwys dan 'cyfleoedd swydd' llywodraeth leol hefyd.

Trafodwyd diweddarau gwefan y pentref yn sgîl marwolaeth y Clerc, gan ei fod yn meddu ar hawliau gweinyddol y wefan. Cytunodd KM i gysylltu â Chris Birchall i ofyn am roi hawliau gweinyddol y wefan i David Greenhalgh. Yna byddai David yn diweddarau'r wefan, darparu manylion cynghorwyr newydd a rhoi hysbysiad ynghylch marwolaeth Michael.

## 216. **GOHEBIAETH**

216.1 Derbyniwyd llythyr oddi wrth Ysgol Llanfair yn gofyn am gymorth ariannol i gael meddalwedd “Clicker” i helpu plant â dyslecsia.

**PENDERFYNWYD** – Ni wnaed unrhyw benderfyniad a byddai’n cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.

216.2 Derbyniwyd llythyr oddi wrth Came and Company yn cynghori’r Cyngor am gost yr yswiriant am y flwyddyn ganlynol. Cynigiwyd disgownt ar yr amod bod y Cyngor yn ymrwymo i dair blynedd gyda’r cwmni.

**PENDERFYNWYD** – Roedd y cyfarfod yn credu fod y Clerc wedi talu’r gost am gyfnod o flwyddyn. Hyn i’w wirio unwaith y bo’r dogfennau ar gael.

## 217. **CYNLLUNIO**

217.1 Cyflwynwyd cais i adeiladu dau dŷ ‘fforddiadwy’ yng Nghraigfechan.

**PENDERFYNWYD** – Gwrthod y cynnig ar sail maint yr eiddo arfaethedig.

## 218. **PRIFFYRDD A’R AMGYLCHEDD**

218.1 Hysbysodd Steve Whipp y cyfarfod ei fod wedi mynd i hyfforddiant ar gyfer sefydlu grŵp Gwyllo Cyflymder Cymunedol. Ar hyn o bryd ef oedd yr unig wirfoddolwr o ardal Rhuthun a byddai’n gweithio gyda chriw yn yr Wyddgrug yn ogystal â derbyn cymorth gan eraill. Gobeithid y byddai rhagor o bobl yn gwirfoddoli unwaith y bo’r fenter wedi’i sefydlu. Pwrpas Gwyllo Cyflymder Cymunedol yw monitro ac adrodd ar gyflymder trwy’r pentref ac nid gorfodaeth. Gobeithir y bydd monitro yn dangos maint y broblem goryrru yn y pentref.

218.2 Rhoddodd Steve Whipp ddiweddariad i’r aelodau ar broblem cynnal a chadw’r llwybr ceffylau o Ysgol Llanfair i Fferm Bryn Obwst. Roedd swyddog yr awdurdod lleol wedi ei gynghori fod y llwybr ceffylau o ran ei swyddogaeth yn darparu mynediad i eiddo yn ddreif preifat ac nad oedd gan y Cyngor Sir ddyletsydd i gynnal unrhyw ddreif preifat. Serch hynny, roedd wedi darparu 50 tunnell o grafion wyneb ffordd i’r ffarmwr er mwyn gwella wyneb y llwybr ceffylau.

218.3 Trafodwyd newid llinell y llwybr cyhoeddus yng Nghraigfechan o’r B5429 wrth Capel Bethel i Lwybr Ceffylau 15. Cynghorodd Wini Davies ei bod wedi cerdded ar hyd y llwybr diwygiedig gydag eraill a’i bod yn ei ystyried yn foddhaol. Mae Tania Evans o Gyngor Sir Ddinbych yn trefnu i bolyn ac arwydd llwybr troed gael ei osod.

218.4 Adroddwyd bod giât wedi ei gosod ar draws y llwybr ceffylau lle mae’n dod i’r A525 i’r gogledd o Lodge Llwyn Ynn. Roedd y giât wedi ei gosod fel un sefydlog ac felly roedd yn amhosibl i farchogwyr ceffylau ei defnyddio.

## **PENDERFYNWYD**

Cofnod 218.4 SW i gynghori Swyddog Llwybrau Troed Cyngor Sir Ddinbych am yr angen am osod giât y gellid ei defnyddio.

## **RHAN 2**

## 219. **CYLLID**

219.1 Roedd y Clerc wedi cyflwyno cyfrifon cyflawn am y cyfnod 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016.

219.2 Derbyniwyd llythyr oddi wrth bwyllgor rheoli Neuadd Eleanor yn gofyn am ailddyfarnu grant y cytunwyd arno'n flaenorol gan y cyngor at ddiben adnewyddu ffenestri'r neuadd. Clywodd y cyfarfod fod angen cael amcanbris pendant ar gyfer y gwaith cytunedig, a oedd yn cael ei drafod ag Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych hefyd.

#### **PENDERFYNWYD**

219.2 Cytunodd y cyfarfod, mewn egwyddor, y gellid ailddyfarnu'r cyllid a byddai JP yn hysbysu Phil Webb am hyn. Serch hynny, roedd yr angen i ddeall y bwriad arfaethedig a'r hyn a gytunir yn parhau ac roedd y Cyngor yn dymuno cael eu cynghori am hyn.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

**NEUADD ELEANOR NOS FERCHER 6 GORFFENNAF 2016 AM 7.00PM**

Gan nad oedd rhagor o fusnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

---

CADEIRYDD

---

DYDDIAD

### **CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair D.C. nos Fercher, 1 Mehefin 2016 am 7 o'r gloch.

Presennol:- Y Cynghorwyr Keith Mouldale (Cadeirydd), Medwen Roberts, Jayne Mayers, Wini Davies, Dennis Edwards, Tim Faire, David Baker a Steve Whipp

Trigolion:- David Greenhalgh.

Trefnwyd y cyfarfod i drafod materion brys pwysig ac ystyried y broses i'w dilyn i benodi Clerc newydd i'r Cyngor.

220. **MATERION BANCIO**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y cyfarfod fod y banc wedi ei gynghori fod y rheolau sefydlog presennol yn ei gwneud yn ofynnol i sieciau gael eu llofnodi gan ddau aelod o'r cyngor yn ogystal â'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, y Clerc. Yn absenoldeb y Clerc cynigiwyd diwygio Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog Cyngor Cymuned Llanfair DC fel bo sieciau'n gallu cael eu hawdurdodi gan un ai dri aelod o'r Cyngor neu fel arall gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Byddai Rheol Sefydlog 12.1 ar wariant yn nodi:

Bydd gorchmynion i dalu arian yn cael eu hawdurdodi trwy benderfyniad y Cyngor a'u llofnodi gan dri aelod, neu fel arall gan ddau aelodau ynghyd â'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Llofnodwyr y sieciau i nodi eu blaenlythrennau ar fonyn pob siec.

Cynigiwyd y diwygiad hwn gan Medwen Roberts a'i eilio gan Dennis Edwards. Fe'i cefnogwyd yn unfrydol gan y rhai a oedd yn bresennol.

## 221. **TREFNIADAU ARCHWILIO**

221.1 Hysbysodd y Cadeirydd fod yr archwiliad interim wedi'i gwblhau'n foddhaol a'i lofnodi gan Gwyn Davies.

221.2 Penderfynwyd fod angen llofnodi cofnodion cyfarfodydd diweddar ac yna eu rhoi yn y ddogfen cofnodion.

**PENDERFYNWYD** - SW i argraffu'r cofnodion a mynd â nhw at y Cadeirydd i'w llofnodi. Byddai SW yn llofnodi fel clerc dros dro.

221.3 Bu'r cyfarfod yn ystyried penodi Archwilwyr Allanol.

**PENDERFYNWYD** - Cynigiodd TF benodi cwmni Hacker Young i'r rôl yma. Eiliwyd hynny gan JM a'i gytuno gan y cyfarfod.

## 222. **YMGEISWYR AM RÔL Y CLERC**

Clywodd y cyfarfod fod pump cais wedi eu cyflwyno hyd yma, ac roedd naw diwrnod i fynd cyn dyddiad cau'r swydd, sef 10 Mehefin 2016.

Cytunwyd cynnal y cyfweliadau gan gymaint o aelodau'r Cyngor ag a oedd ar gael. Byddai'r ymgeiswyr yn cael eu hysbysu fod gofyn iddynt ddod am gyfweliad, a nodwyd dyddiad darpariaethol, sef 22 Mehefin 2016.

Cytunwyd ar restr fer ddarpariaethol a gofynnwyd i'r Cadeirydd gynghori'r aelodau petai ceisiadau eraill yn dod i law erbyn y dyddiad cau. Petai rhagor o geisiadau trefnir cyfarfod arall i adolygu'r rhestr fer.

Bwriedir cynnal cyfarfod ar 15 Mehefin 2016 am 7 o'r gloch i baratoi ar gyfer y cyfweliadau. Byddai cwestiynau wedi eu seilio ar gymhwysedd yn cael eu llunio ar sail prif ofynion y rôl: sgiliau rhyngersonol, sgiliau gweinyddol, gwybodaeth technoleg gwybodaeth, profiad blaenorol perthnasol a gwybodaeth arall yn cynnwys y Gymraeg.

Byddai'r cyfweliadau yn cymryd 45 munud, wedi eu hamseru awr ar wahân. Byddai'r Cadeirydd yn gynghori'r ymgeiswyr y byddai'r cyfweliad gan banel o hyd at naw aelod a byddai'n ceisio creu amgylchedd cyfweliad anffurfiol.

## 223. **STORIO DOGFENNAU'R CYNGOR**

Awgrymwyd y dylid storio'r dogfennau mewn cwpwrdd ffeilio i'w gadw yn y neuadd gymuned. Penderfynwyd trafod y mater hwn gyda'r Clerc newydd yn dilyn gwneud y penodiad.

## 224. **GWEFAN**

Cynghorodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yng nghyfarfod Clwstwr Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych. Darparwyd trosolwg o gyfrifoldebau'r Cyngor i sicrhau bod y wefan yn cael ei diweddarau gyda chopïau o agendâu a chofnodion cyfarfodydd. Cytunwyd y byddai KM a DG yn cynnal y wefan ac y byddai'r Clerc newydd yn ymwneud â hyn, yn dilyn y penodiad.

**PENDERFYNWYD** – KM a DG i adolygu'r wefan i benderfynu beth oedd ei angen i fodloni'r gofynion gorfodol. Awgrymwyd y byddai o 2015 ac ymlaen yn ddigonol.

#### **225 CYFARFOD BLYNYDDOL**

Roedd y Cyfarfod Blynyddol wedi'i ohirio nes penodi Clerc newydd.

#### **226 SWYDDFA'R COMISIYNYDD GWYBODAETH A DIOGELU DATA**

Anfonwyd llythyr at y Cadeirydd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn nodi'r gofynion ar gyfer diogelu data a chofrestru. Hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch y sefyllfa bresennol o ran y Clerc a chytunwyd darparu cod diogeledd i'r Clerc newydd yn dilyn y penodiad i ganiatáu diwygio'r manylion.

#### **227 YSWIRIANT**

Roedd y Cadeirydd wedi cysylltu â'r cwmni yswiriant a oedd wedi cadarnhau y byddai taliad ar ôl 1 Mehefin 2016 yn dderbyniol o gofio'r amgylchiadau anarferol. Cadarnhawyd fod yr yswiriant yn cael ei ddarparu gan Hiscox ac y byddai polisi yn cael ei gyflwyno maes o law.

Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:

#### **1. NEUADD ELEANOR NOS FERCHER 15 MEHEFIN 2016 AM 7.00PM**

I baratoi ar gyfer y cyfweiliadau i benodi Clerc.

#### **2. NEUADD ELEANOR NOS FERCHER 22 MEHEFIN 2016 AM 7.00PM**

Cyfweiliadau a phenodi Clerc.

Gan nad oedd rhagor o fusnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

---

CADEIRYDD

---

DYDDIAD

CYNGOR GYMUNED      LLANFAIR DYFFRYN CLWYD      COMMUNITY  
COUNCIL

Cofnodion y CYFARFOD BLYNYDDOL a chyfarfod arferol y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC nos Fercher, 6 Gorffennaf 2016 am 7 o'r gloch.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Keith Mouldale [Cadeirydd], Wini Davies, Dennis Edwards, John Pugh, Jayne Mayers, Medwen Roberts a Steve Whipp Clerc – Eirwen Godden  
Trigolyn – Mr David Greenhalgh [Rhan 1]

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorwyr David Baker a Tim Faire.

228 SYLWADAU'R CADEIRYDD WRTH YMDDEOL

Cyfeiriodd y Cynghorydd Keith Mouldale at y cyfnod anodd a wynebodd y Cyngor yn dilyn marwolaeth sydyn y Clerc, Mr M Shorter. Diolchwyd i'r Cynghorwyr Keith Mouldale a Steve Whipp am eu hymdrechion yn ystod y cyfnod hwn yn ymdrin â materion brys a oedd wedi codi o ganlyniad i'r sefyllfa. Croesawyd Mrs Eirwen Godden i'w chyfarfod cyntaf ers ei phenodi yn Clerc y Cyngor.

Gwnaed llawer o gynydd o ran materion priffyrdd a chynllunio yn ystod y flwyddyn, sef, treialu'r terfyn cyflymder 20 milltir yr awr; codwyd nifer o faterion ynghylch llwybrau troed a'u datrys; adeiladwyd camfeydd ac mae'r gwaith o ddiweddarau gwefan y Cyngor Cymuned mewn llaw. Serch hynny, mynegodd ei siom o ran ansawdd y tirlunio o gwmpas y Gofeb ac ychwanegu enw. Dywedodd y Cynghorydd John Pugh y byddai'n gwneud ymholiadau ynghylch cael grant gan yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel tuag at y gwaith hwn.

229 EHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD AR GYFER 2016/17

229.1 Cynigiodd y Cynghorydd Jayne Mayers ac eiliodd y Cynghorydd Dennis Edwards ethol y Cynghorydd John Pugh yn Gadeirydd ar gyfer 2016/17. Cytunwyd yn unfrydol.

229.2 Cynigiodd y Cynghorydd Medwen Roberts ac eiliodd y Cynghorydd Wini Davies ethol y Cynghorydd Steve Whipp yn Is-gadeirydd ar gyfer 2016/17. Cytunwyd yn unfrydol.

230 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 2 Mawrth, 4 Mai ac 1 Mehefin 2016.

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo'r cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

[Nodwyd fod cofnodion y Cyfarfod Blynyddol/cyfarfod arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Mai 2015 wedi eu cadarnhau ar 1 Gorffennaf 2015].

231 MATERION YN CODI

204.1 Ymddiswyddiad Aelod – crewyd sedd wag yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Gwyneth Griffiths ym mis Ionawr 2016. PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc wirio'r drefn ar gyfer llenwi'r sedd wag.

215 Gwefan y Cyngor Cymuned – adroddodd y Cynghorydd Keith Mouldsdale ei fod wedi cyfarfod â Chris Birchall, wedi cael cyfrinair ar gyfer mewngofnodi, ynghyd â chyfrinair gweinyddydd, er mwyn gwneud newidiadau i'r wefan. Bydd Mr David Greenhalgh yn rhoi cymorth fel a phan fo angen. Bydd angen rhoi hyfforddiant i'r Clerc maes o law hefyd.

PENDERFYNWYD – fod y Clerc yn gwneud trefniadau i'r cofnodion gael eu hanfon at y Cynghorydd Mouldsdale i'w rhoi ar y wefan a'i bod yn cael dyfynbrisiau ar gyfer cyfieithu'r cofnodion i'r Gymraeg.

217.1 Tai fforddiadwy yng Nghraigfechan – nodwyd y newidiadau i'r cais. Mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais mewn egwyddor.

218.2 Llwybr ceffylau o Ysgol Llanfair i Fferm Bryn Obwst – Adroddwyd - fod y ffermwr wedi gosod cerrig ar y llwybr ceffylau.

218.4 Llwybr ceffylau lle mae'r llwybr yn dod at yr A525 i'r gogledd o Lodge Llwyn Ynn – Adroddwyd - fod Swyddog Llwybrau Troed y Cyngor Sir wedi ei hysbysu am y giât sefydlog yn y fan hon, yn ei gwneud yn amhosib i farchogwyr ceffylau fynd trwodd.

219.2 Adnewyddu ffenestri – Neuadd Eleanor – Adroddwyd – fod y Cyngor Sir wedi gwrthod y cais cynllunio i roi ffenestri newydd deunydd uPVC yn lle'r rhai presennol. Mae'r mater yn parhau. Cadarnhawyd fod grant wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Cymuned yn flaenorol a gellid ei ryddhau i Neuadd Eleanor ar gais y Pwyllgor Rheoli.

221.3 Archwilwyr Allanol – Adroddwyd – fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi penodi cwmni BDO yn lle Hacker Young.

231.1 Ceisiadau am swydd y Clerc [cofnod rhif 222]. Derbyniwyd deg cais, gyda phedwar ymgeisydd ar y rhestr fer ac wedi'u cyfweld ar 22 Mehefin 2016].

PENDERFYNWYD – Cadarnhau penodiad Mrs Eirwen Godden fel Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor. Dechreuodd ar ei dyletswyddau ar 1 Gorffennaf 2016.

## 232 DYDDIADAU AC AMSEROEDD CYFARFODYDD

Cytunwyd yn unfrydol i barhau i gynnal y cyfarfodydd bob yn ail fis ar nos Fercher cyntaf y mis yn dechrau am 7 o'r gloch y nos, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

## 233 GOHEBIAETH

Ymdriniwyd â'r holl ohebiaeth yn Rhan 2 o dan Cyllid.

## 234 CYNLLUNIO

Ni ystyriwyd unrhyw faterion cynllunio, ac eithrio bod y Cynghorydd Steve Whipp wedi datgan nad oedd unrhyw wrthwynebiad i Gais 20/2016/0562 [ffatri wyau].

## 235 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

235.1 Cau ffyrdd – Bwletin Gwaith Ffyrdd Cyngor Sir Ddinbych – bydd rhai ffyrdd yn yr ardal yn parhau ar gau yn ystod gwaith trwsio ac uwchraddio'r ffyrdd.

PENDERFYNWYD – fod y Clerc yn hysbysu'r Cyngorwyr trwy anfon yr wybodaeth a dderbynnir gan y Cyngor Sir atynt trwy e-bost.

## RHAN 2

### 236 CYLLID

#### 236.1 Datganiad Ariannol

Rhannodd y Clerc gopi o'r Datganiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016 ar gyfer y Cyfrifon Cyffredinol a Busnes. Copi i'w roi fel atodiad i gofnodion y cyfarfod at ddibenion cadw cofnod. Bydd y Clerc yn cyflwyno datganiad ariannol yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill – 31 Awst 2016 yn y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 7 Medi 2016 pan ddylid dechrau ystyried y Praesept ar gyfer 2017-18.

#### 236.2 Archwiliad Diwedd Blwyddyn

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn neges e-bost oddi wrth BDO yn gofyn am ymateb y Cyngor i'r ymholiadau isod erbyn 13 Gorffennaf 2016:

[a] Yr union gynnydd yng nghyflog y Clerc, a chopi o'r cofnodion yn cymeradwyo'r cynnydd

[b] Manylion y cynnydd yn y ffigur asedau sefydlog o £2,414

[c] Cwblhau'r datganiad llywodraethu blynyddol [yn cynnwys copïau o'r dogfennau perthnasol]

[ch] Adroddiad archwiliad mewnol manwl.

Esboniodd y Clerc ei bod wedi gofyn am gopi o'r adroddiad archwiliad mewnol gan Mr Gwyn Davies a oedd yn gweithredu fel archwilydd mewnol y Cyngor. Mae Mr Davies wedi cadarnhau fod yr wybodaeth a'r esboniadau a ddarparwyd iddo gan y Cadeirydd wedi ei arwain at y farn fod ei adroddiad yn adroddiad 'glân' i Gyngor Cymuned Llanfir D C. Gofynnwyd i Mr Davies gwblhau a llenwi'r ffurflen archwilydd mewnol fel sy'n ofynnol.

PENDERFYNWYD – fod y Clerc yn dilyn camau gweithredu fel a nodwyd. Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r Clerc a'r Cadeirydd lenwi a llofnodi'r datganiad llywodraethu blynyddol.

#### 236.3 Mandad / Cyfarwyddiadau i'r Banc

Adroddodd y Clerc fod ffurflen Newid Cyfeiriad a Manylion Cyswllt Cwsmer HSBC wedi ei llenwi yn barod i'w llofnodi gan yr aelodau. Byddai'r ffurflen hon, a'r ffurflen Mandad ddiwygiedig, yn cael eu cyflwyno i HSBC er mwyn gwneud newidiadau yn unol â Rheol Sefydlog 12.1 diwygiedig ar wariant fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 1 Mehefin 2016. Golyga hyn yn y dyfodol y gellir awdurdodi sieciau gan un ai dri Aelod o'r Cyngor neu fel arall gan ddau Aelod o'r Cyngor a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

PENDERFYNWYD - rhoi caniatâd i'r Clerc gofrestru ar gyfer bancio ar-lein er mwyn ei gwneud yn haws gweld a gwirio trafodion.

#### 236.4 Cymorth Ariannol

Derbyniwyd llythyrau yn gofyn am gymorth ariannol oddi wrth

236.4.1 Hosbis Sant Cyndeyrn am gyfraniad tuag at ddarparu gwasanaethau'r hosbis. PENDERFYNWYD – gohirio'r penderfyniad tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.



236.4.2 Ysgol Pentrecelyn i dalu am gost bws i gludo'r plant [Disgyblion Blwyddyn 1-6, 5-11 oed] i'w gwersi nofio [oddeutu £100 yn arferol] am dymor cyfan. Mae hwn yn gyfle i'r plant hynny nad ydynt yn ddigon ffodus i gael gwersi nofio y tu allan i oriau'r ysgol.

236.4.3 Capel Ebeneser, Graigfechan, tuag at gostau cynnal cyffredinol y capel. Gwnaed gwaith i adfer to'r capel yn ystod Gorffennaf 2015 ar gost o £13,428.

236.4.4 Cyngor Plwyf Eglwysig Eglwys y Santes Fair, Llanfair D C, tuag at gostau torri'r glaswellt o gwmpas yr eglwys.

236.4.5 Ysgol Reoledig Llanfair Dyffryn Clwyd tuag at gost rhaglen gyfrifiadurol [oddeutu £500] o'r enw 'Clicker' i roi cymorth i blant ag anghenion ychwanegol, yn enwedig y rhai â thueddiadau dyslecsig.

PENDERFYNWYD – gwneud taliadau fel a ganlyn:

236.4.2 - £100

236.4.3 - £300

236.4.4 - £200

236.4.5 - £250

236.5 Anfonebau / Taliadau

236.5.1 Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych – ffi adnewyddu aelodaeth 2016-2017 - £15.

236.5.2 Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – ffi adnewyddu cofrestriad Diogelu Data - £35.00.

236.5.3 Roedd y Cynghorydd Keith Mouldsdale wedi talu anfoneb gan NWN Media Ltd am £213.60 [hysbyseb swydd y Clerc] ac roedd yn gofyn am ad-daliad.

236.5.4 Mr Gwyn Davies, ffi am y gwaith Archwilio Mewnol ar ran y Cyngor Cymuned yn unol â'r dyfynbris dyddiedig mis Mawrth 2016 - £60.00.

PENDERFYNWYD – gwneud taliadau fel a ganlyn:

236.5.1 - £15

236.5.2 - £35

236.5.3 - £213.60 [ad-daliad i'r Cynghorydd Mouldsdale]

236.5.4 - £60 yn amodol ar i Mr Gwyn Davies lenwi'r ffurflen ofynnol.

236.6 Storio Cofnodion

Adroddwyd – fod Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor wedi rhoi caniatâd i'r Cyngor Cymuned osod cwpwrdd storio yn yr adeilad.

PENDERFYNWYD – fod y Cynghorydd Mouldsdale yn prynu cwpwrdd storio ar ran y Cyngor.

237 PENODI CLERC Y CYNGOR, CYTUNDEB GWAITH A THÂL

237.1 Cyflog y Clerc - PENDERFYNWYD – talu cyflog i'r Clerc yn unol â Phwynt 25 y Cyd-bwyllgor Cenedlaethol yn weithredol o 1 Gorffennaf 2016. Gohiriwyd penderfyniad ar delerau ac amodau eraill tan y cyfarfod nesaf ar 7 Medi 2016.

### 237.2 Adroddiad y Clerc

Ers dechrau ei phenodiad roedd y Clerc wedi cymryd cyfrifoldeb am ddogfennau a chofnodion y Cyngor a chyfrifiadur a pheiriant argraffu. Mae ffeiliau papur a chyfrifiadurol un ai wedi eu creu neu eu tacluso. Crewyd ffurflen cofnodi'r gwaith er mwyn cofnodi'r gweithgareddau yr ymgymrwyd â nhw gyda'r nod o lunio rhaglen waith wedi'i hamserlennu i gyd-fynd â'r flwyddyn ariannol. Mae dau lond crât o ddogfennau/cofnodion y gellir eu harchifo a'u storio mewn cwpwrdd diogel yn Neuadd Eleanor. Dywedodd fod y gwaith hanfodol hwn wedi cymryd 26 awr hyd yma, ond roedd o'r farn y dylai'r cyfartaledd oriau leihau dros amser.

### 237.3 Cyfleusterau Cyflogres

Adroddodd y Clerc y gall Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych barhau i ddarparu'r cyfleuster i brosesu'r gyflogres am ddim, gyda'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am dalu'r cyflog a'r taliadau treth i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn debygol o gael ei drosglwyddo i asiantaeth arall yn ystod y misoedd nesaf pan godir tâl o tua £200 y flwyddyn.

PENDERFYNWYD – fod y Cyngor yn parhau i ddefnyddio gwasanaeth cyflogres Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chlerc Cyngor Cymuned Llanferres ynghylch eu trefniadau cyflogres nhw.

### 238 ADOLYGIAD BLYNYDDOL ASESIAID RISG A MESURAU RHEOLI MEWNOL, RHEOLAU SEFYDLOG A RHEOLIADAU ARIANNOL

PENDERFYNWYD – Gohirio hyn tan y cyfarfod nesaf ar 7 Medi.

### 239 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – NOS FERCHER 7 MEDI 2016 – NEUADD ELEANOR, LLANFAIR D C AM 7.00 PM.

Gan nad oedd rhagor o fusnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod am 8.05pm.

\_\_\_\_\_ CADEIRYDD

\_\_\_\_\_ DYDDIAD

CYNGOR CYMUNED

LLANFAIR DYFFRYN CLWYD  
COUNCIL

COMMUNITY

Cofnodion Cyfarfod Eithriadol o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair D C nos Fercher, 3 Awst 2016 am 7 o'r gloch y nos.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr John Pugh [Cadeirydd], Steve Whipp [Is-gadeirydd], Wini Davies, Dennis Edwards, Jayne Mayers a Keith Mouldsdale  
Clerc – Mrs Eirwen Godden

### RHAN 1

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorwyr David Baker, Tim Faire a Medwen Roberts.

## 240 COFNODION

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 6 Gorffennaf 2016.

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo'r cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 241 MATERION YN CODI

204.1 Ymddiswyddiad Aelod – y dyddiad cau a hysbysebwyd ar gyfer y swydd wag oedd 5 Awst 2016. Os nad yw'r Cyngor Cymuned yn derbyn cais i llenwi'r swydd bydd yn cael ei llenwi trwy gyfethol.

229.1 – Ethol Cadeirydd – Cadarnhawyd fod y Cynghorydd John Pugh wedi llofnodi'r ffurflen Datganiad Derbyn y Swydd.

## 242 GOHEBIAETH

Ymdriniwyd â'r holl ohebiaeth a dderbyniwyd yn Rhan 2 dan Cyllid.

## 243 CYNLLUNIO

243.1 Cais Cynllunio rhif 20/2016/0719 – Adeiladu estyniadau i flaen a chefn annedd a garej dwbl ar wahân ym Maes Derwen, Llanfair D C.

PENDERFYNWYD – Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad ac argymhellwyd cymeradwyo'r cais.

### 243.2 Carafan yn Erw Fair, Llanfair DC

Yn dilyn derbyn gwybodaeth fod cynlluniau ar y gweill i sefydlu maes carafanau, anfonwyd llythyr at Gyngor Sir Ddinbych ar 8 Ionawr 2016 yn gofyn am gyngor ynghylch caniatâd cynllunio ar gyfer meysydd carafanau. Cafwyd ateb gan Mr Ian Weaver, Prif Swyddog Cynllunio, Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ar 19 Ionawr 2016. Cynghorodd Mr Weaver y byddai rheolau cynllunio a thrwyddedu yn berthnasol a phetai'r Cyngor Sir yn derbyn cais cynllunio byddai'n ymgynghori â'r Cyngor Cymuned.

Anfonwyd llythyr at Ian Weaver ar 7 Gorffennaf 2016 i'w gynghori bod carafan sefydlog wedi ei gosod ar y tir yn Erw Fair. Cyfeiriodd y mater at Adam Turner, Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio Cyngor Sir Ddinbych. Gofynnodd Adam Turner am ragor o wybodaeth a dywedodd y byddai'n ysgrifennu at y tramgwyddwr honedig, y byddai'n ei adnabod o gofnodion y Gofrestrfa Tir, ac yn gofyn iddo/iddi gyflwyno un ai cais cynllunio ôl-weithredol neu ddarparu tystiolaeth nad oes angen caniatâd ar gyfer lleoli'r garafan yn y lleoliad. Byddai Adam Turner hefyd yn cynnig y dewis amgen o symud y garafan oddi ar y tir. Dywedodd Adam Turner y byddai'n hysbysu'r Cyngor Cymuned am y cynnydd gyda hyn.

### 243.3 Cyswllt Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru

Hysbyswyd yr aelodau fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi caniatâd datblygu yng nghyswllt cais gan SP Manweb i osod 17 milltir o geblau uwchben i gysylltu dwy fferm wynt yn ardal Clocaenog i is-orsaf yng Nghlascoed, ger Llanellwly. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyflwyno syniadau am brosiectau cymunedol i'r Clerc, i'w blaenoriaethu mewn cyfarfod yn y dyfodol, mewn parodrwydd ar gyfer

sefydlu cronfa gymunedol i ddosbarthu arian ar sail yr incwm a gynhyrchir gan y cynllun ffermydd gwynt.

PENDERFYNWYD – bod yr Aelodau'n anfon rhestr o gynigion at y Clerc i'r Cyngor eu hystyried a'u blaenoriaethu.

#### 244 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

##### 244.1 Pont Eyarth – Cyfyngiadau Pwysau arfaethedig

Bydd Mr James Hall, Uwch Beiriannydd, Cyngor Sir Ddinbych, yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 7 Medi 2016 i drafod bwriad y Cyngor Sir i drefnu cyfyngu'r pwysau o ran defnyddwyr y bont. Roedd yr aelodau yn gweld hyn fel cyfle i dynnu sylw at sut y byddai hyn yn effeithio ar y gymuned leol o ran hwylustod mynediad ac yn economaidd.

##### 244.2 Fandaliaeth llwybr troed y bont

Dywedodd y Cynghorydd Steve Whipp ei fod wedi ysgrifennu at Tania Evans, Swyddog Mynediad Cefn Gwlad yng Nghyngor Sir Ddinbych ar 9 Mai 2016 yng nghyswllt nifer o faterion. Problem newydd a oedd wedi codi oedd difrod wedi'i achosi i bont troed newydd dros ffrwd ger Plas Einion. Roedd y difrod dechreuol i gamfa dros y fwyaf o'r pontydd troed a oedd wedi'i tharo gan rholiwr gwair. Fodd bynnag, ymddangosai bod yr ail bont droed llai o faint wedi ei difrodi hefyd, mewn modd a oedd yn golygu ei bod wedi gwahanu oddi wrth y plinth cynnal. Cyfeiriwyd y mater at Adrian Walls, Rheolwr Gwybodaeth Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, i gynnal ymchwiliad pellach ac archwiliad strwythurol. Gwnaeth Adrian Walls holi'r asiant tir a awgrymodd y gallai'r difrod fod wedi digwydd yn ystod llifogydd diweddar. Cynghorodd Adrian Walls y bu gwrthwynebiad i sefydlu'r llwybr troed ac y byddai'n croesawu cefnogaeth Cyngor Cymuned Llanfair DC yn pwysleisio pwysigrwydd y llwybr.

##### 244.3 Taith Gerdded Gylchol

Awgrymodd Adrian Walls y byddai'n ddefnyddiol petai Cyngor Cymuned Llanfair DC yn cefnogi sefydlu llwybr cerdded cylchol newydd. Awgrymodd y byddai'r llwybr yn mynd o'r pentref ac i warchodfa gloynnod byw Creigiau Eyarth ym Mhwlcallod.

PENDERFYNWYD – cadarnhaodd y Cyngor Cymuned bwysigrwydd y llwybr fel amwynder i'r ardal ac roeddynt yn dymuno i hyn gael ei wneud yn glir i Gyngor Sir Ddinbych. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Adrian Walls i'w gynghori a mynegi cefnogaeth gref o ran sefydlu llwybr cerdded cylchol o'r pentref i'r warchodfa gloynnod byw.

##### 244.4 Materion llwybrau troed

Adroddwyd bod camfa nesaf at ymyl y ffordd ar y llwybr o Fryn Coch i Graigfechan wedi ei thorri a gofynnwyd i'r Clerc hysbysu Tania Evans am hyn. Hefyd nodwyd nad oedd yr arwydd llwybr troed newydd a addawyd ar gyfer y llwybr newydd nesaf at y capel yng Nghraigfechan wedi ei ddarparu hyd yma a gofynnwyd i'r Clerc atgoffa Tania Evans am hyn.

#### RHAN 2

#### 245 MATERION ARIANNOL

##### 245.1 Datganiad Ariannol

Dosbarthodd y Clerc ddatganiad ariannol am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 2016 yn seiliedig ar y datganiadau banc ar gyfer y cyfnod. Nodwyd fod taliadau a wnaed yn ystod Awst wedi eu hychwanegu [£1,187.60] gan adael balans o £996.78 yn y cyfrif cyfredol.

## 245.2 Cymorth Ariannol

### 245.2.1 Neuadd Eleanor Llanfair D C – Gwelliannau i'r maes parcio

Adroddwyd bod yr ardal o laswellt ar ochr neuadd y pentref wedi'i thynnu ymaith a deunydd caled wedi'i osod yno, nesaf at wal yr eglwys, er mwyn cynyddu nifer y lleoedd i geir. Roedd y gost yn £2,880 yn cynnwys TAW. Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor wedi cytuno, mewn egwyddor, yn eu cyfarfod ar 4 Mai 2016 y gellid ailddyrranu'r cyllid a glustnodwyd ar gyfer ffenestri gwydr dwbl yn y neuadd. Roedd y Trysorydd wedi ysgrifennu yn gofyn am ryddhau'r grant tuag at gostau ymestyn y maes parcio gan fod y gwaith wedi'i gwblhau.

PENDERFYNWYD – fod yr Aelodau'n cymeradwyo ailddyrranu'r grant a bod y Clerc yn gwneud trefniadau i drosglwyddo £2,000 o'r cyfrif Busnes i'r cyfrif Cyffredinol er mwyn gwneud y taliad.

### 245.2.2 Capel Salem Llanfair D C

PENDERFYNWYD – dyfarnu grant o £300 tuag at gostau cynnal y capel.

## 245.3 Gwasanaeth Cyfieithu

Adroddodd y Clerc y gallai Sandra Williams [Clerc Cyngor Tref Rhuthun] ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar gost o £50 [+ TAW] am bob 1,000 o eiriau.

PENDERFYNWYD – defnyddio Sandra Williams i ddarparu gwasanaeth cyfieithu i'r Cyngor Cymuned ac anfon llythyr at Lois Holmes yn diolch iddi am ei gwasanaeth yn y gorffennol.

## 245.4 Gwasanaeth Cyflogres

Cyflwynwyd llythyr oddi wrth Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn datgan na fyddai mewn sefyllfa i barhau i gynnig gwasanaethau cyflogres a bod y gwasanaeth wedi'i drosglwyddo i AVOW [Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam] yn weithredol o 1 Medi 2016. Cost - £144 y flwyddyn i ddarparu cyfleuster talu trwy gyfrwng trosglwyddiad banc (BACS) ac ymdrin ag atebolrwydd Talu wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol. Gofynnwyd am ddyfynbris gan JAS Accountancy hefyd ond ni fyddai gwasanaeth BACS ar gael ac nid oedd yn eglur a fyddai ffi sefydlu yn daladwy yn ychwanegol at y ffi misol.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo bod AVOW yn darparu gwasanaeth cyflogres i'r Cyngor.

## 245.6 Cynhadledd Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol (SLCC) yn Llandudno ar 14 Medi 2016 a hyfforddiant i glercod newydd

Gofynnodd y Clerc am ganiatâd i fynd i'r gynhadledd. Mae'r ffi llawn yn £79.00 + TAW ond mae cynllun bwrsari y gellir gwneud cais ar ei gyfer ynghyd â disgownt o £10.00 i'r rhai sy'n cofrestru eu lle cyn 18 Awst. Hefyd gofynnodd am ganiatâd i fynd ar gwrs ar gyfer Clercod newydd pan bennir y dyddiad.

PENDERFYNWYD – awdurdodi'r Clerc i fynd i'r gynhadledd ar 14 Medi a chwrs hyfforddiant i Glercod newydd.

#### 245.7 Costau Teithio

PENDERFYNWYD – talu lwfans o 45 ceiniog y filltir i'r Clerc am gostau teithio ar fusnes y Cyngor.

#### 245.8 Uwchraddio meddalwedd cyfrifiadur y Cyngor

PENDERFYNWYD – rhoi caniatâd i'r Clerc fwrw ymlaen gyda phrynu meddalwedd Microsoft Office er mwyn uwchraddio cyfrifiadur y Cyngor.

### 246 ARCHWILIAD DIWEDD Y FLWYDDYN – DATGANIAD CYFRIFYDDU 2015-16

#### A'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynwyd – Y datganiad cyfrifyddu ar gyfer 2015-16 a'r datganiad llywodraethu blynyddol, i'w cymeradwyo. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymholiad arall gan BDO, yr archwilydd allanol, o ran y datganiad cyfrifyddu ar gyfer 2015-16 a'r datganiad llywodraethu blynyddol. Mae'r archwilydd am gael cyfeiriad at y cofnod sy'n cofnodi'n glir gymeradwyo'r datganiad llywodraethu blynyddol. Cadarnhaodd y Clerc fod y cofnodion yn dangos fod y dogfennau wedi eu llenwi a'u hanfon at yr archwilydd allanol erbyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau anffodus marwolaeth y cyn Clerc ar 29 Ebrill 2016 daeth i'r amlwg wedi hynny fod yr angen i gymeradwyo'r datganiad llywodraethu ariannol yn ffurfiol gan y Cyngor llawn cyn cyflwyno'r dogfennau wedi ei esgeuluso.

Dan yr amgylchiadau roedd y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol wedi cynghori y dylai'r Cyngor dderbyn barn amodol ar y cyfrifon eleni gan nad oedd y broses wedi'i chwblhau cyn 30 Mehefin. Mae'r aelodau'n deall yn awr eu bod wedi gwneud camgymeriad cyfreithiol oherwydd yr amgylchiadau anffodus gyda marwolaeth y cyn Clerc yn niwedd Ebrill ac er gwaethaf ymdrechion gorau'r Cadeirydd i gyflwyno'r Cyfrifon Blynyddol yn y fformat gofynnol yn absenoldeb Clerc. Derbyniwyd y bydd angen i'r Cyngor sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD – [a] bod y datganiad cyfrifyddu ar gyfer 2015-16 a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn cael eu cymeradwyo fel y'u cyflwynwyd a hysbysu'r archwilydd allanol yn unol â hynny; [b] pennu dyddiad ar gyfer cyfarfod arbennig erbyn dechrau Mehefin bob blwyddyn petai angen er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn methu dyddiad cau'r archwilydd allanol yn y dyfodol. Roedd y penderfyniad yn unfrydol.

#### 247 ADOLYGU'R

#### ASESIAD RISG A MESURAU RHEOLAETH FEWNOL

#### RHEOLAU SEFYDLOG

#### RHEOLIADAU ARIANNOL

Cyflwynwyd – adroddiadau ar yr eitemau uchod i'w hystyried. Adroddodd y Clerc fod paragraff 12.1 yn y Rheolau Sefydlog wedi'i ddiweddarau yn unol â chofnod cyfeirif 220 y Cyngor a chynghorodd ddiwygio paragraff 5B yn y Rheoliadau Ariannol i gydymffurfio â pharagraff 12.1 yn y Rheolau Sefydlog. Hefyd cynghorodd y dylid cynnwys yr eitem a ganlyn yn yr Adroddiad Aseiad Risg Blynyddol 2016/17, sef, "Rhaid i'r datganiad cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol gael eu

cymeradwyo gan y Cyngor llawn cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo a gweithredu'r diwygiadau, a'u hadolygu yn gyson.

#### 248 COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL

Dosbarthwyd copi i'r holl aelodau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol)(Cymru)(Diwygio) 2016 sy'n gwneud newidiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i holl gynghorau unedol, dinas, tref a chymuned yng Nghymru fabwysiadu Cod Ymddygiad wedi'i ddiweddarau sy'n cynnwys holl ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Mabwysiadodd y Cyngor Sir God Ymddygiad diwygiedig yn ei gyfarfod blynyddol ar 10 Mai 2016 yn cynnwys y newidiadau a wnaed gan y Gorchymyn.

Bydd y Cyngor Sir yn rhoi hysbyseb yn hysbysu am hynny mewn papur newydd ac mae'n cynnig cynnwys enw unrhyw gyngor dinas, tref neu gymuned sy'n dymuno cael ei gynnwys yn yr un hysbysiad, gan osgoi costau pob cyngor yn talu am hysbysiad ar wahân. Cynhwyswyd Cyngor Cymuned Llanfair D C yn yr hysbysiad hwn. Yn y cyfamser mae'n ofynnol i'r Cyngor Cymuned ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac anfon copi o'i God Ymddygiad diwygiedig.

PENDERFYNWYD – mabwysiadu'r cod ymddygiad enghreifftiol yn ei gyfanrwydd ac awdurdodi'r Clerc i ysgrifennu at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i'w hysbysu am hynny.

#### 249 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

NOS FERCHER 7 MEDI 2016  
NOS FERCHER 2 TACHWEDD 2016  
NOS FERCHER 4 IONAWR 2017  
NOS FERCHER 1 MAWRTH 2017

YN NEUADD ELEANOR, LLANFAIR D C AM 7 O'R GLOCH Y NOS.

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi gorffen am 8.30 pm.

\_\_\_\_\_ CADEIRYDD

\_\_\_\_\_ DYDDIAD

**CYNGOR CYMUNED    LLANFAIR DYFFRYN CLWYD    COMMUNITY  
COUNCIL**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC, nos Fercher, 7 Medi 2016 am 7.00 pm.

**PRESENNOL** – Y Cynghorwyr John Pugh [Cadeirydd], Steve Whipp [Is-gadeirydd],

David Baker, Wini Davies, Tim Faire, Jayne Mayers a Medwen Roberts. Eirwen Godden, Clerc.

**HEFYD YN BRESENNOL** – Trigolion David Greenhalgh, Ian Fleming a Rosanne Jarvis ynghyd â James Hall, Uwch Beiriannydd, Cyngor Sir Ddinbych.

## **Rhan 1**

**YMDDIHEURIADAU** – Y Cyngorwyr Dennis Edwards a Keith Mouldsdales

### **250 DATGAN BUDDIANNAU**

Dim

### **251 COFNODION**

Cofnodion cyfarfod Eithriadol y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 3 Awst 2016.

PENDERFYNWYD – Cymeradwywyd y cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

### **252 MATERION YN CODI**

#### **243.2 Carafan yn Erw Fair Llanfair D C**

Cyfeiriwyd at neges e-bost dyddiedig 25 Awst 2016 gan Adam Turner, Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio Cyngor Sir Ddinbych at y Cynghorydd Steve Whipp. Cynghorodd Adam Turner ei fod yn gohebu gyda'r perchennog tir. Roedd wedi ysgrifennu at yr un a oedd yn mynd yn groes i reolau cynllunio ac wedi rhoi chwech wythnos iddo gyflwyno cais, sef erbyn diwedd Medi 2016. Unwaith y daw'r cais i law bydd yn cael ei ystyried, ac os yw'n cael ei wrthod byddant yn gweithredu i waredu'r garafan oddi ar y tir.

#### **244.2 Fandaliaeth llwybr troed y bont**

Adroddodd y Cynghorydd Steven Whipp fod rhagor o fanylion wedi'u hanfon at Adrian Walls, Rheolwr Gwybodaeth Prifffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, sy'n ymdrin â'r mater gyda'r Heddlu.

#### **244.3 Llwybr cerdded cylchol**

Roedd y Clerc wedi anfon llythyr at Adrian Walls ar 9 Awst 2016 ond ni dderbyniwyd unrhyw ateb hyd yma.

PENDERFYNWYD – bod y Clerc yn trefnu anfon rhan o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Awst 2016 at Adrian Walls yn cadarnhau bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi sefydlu llwybr cerdded cylchol o'r pentref i'r warchodfa gloynnod byw.

#### **244.4 Materion llwybrau troed**

Derbyniwyd ateb dyddiedig 18 Awst 2016 gan Tania Evans, Swyddog Mynediad Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych mewn ymateb i lythyr oddi wrth y Clerc. Nid oedd Tania Evans wedi medru lleoli'r llwybr o ran y gamfa wedi torri ar y llwybr yn arwain o Fryn Coch i Graigfechan. Gofynnodd am gyfeirnod grid neu rif llwybr cyhoeddus, os yw'n hysbys. Dywedodd y Cynghorydd Pugh y byddai'n gwirio drosto'i hun. O ran arwyddion llwybr newydd, fe'u gosodir yn unig pan fo'r broses gyfreithiol o ychwanegu'r llwybr at y map diffiniol wedi'i chwblhau. Roedd hi wedi trefnu cyfarfod ar y safle gyda pherchennog newydd y tir nesaf at y capel yng Ngrraigfechan. Roedd y Cynghorydd Wini Davies wedi siarad â Tania Evans yn y cyfamser.



PENDERFYNWYD – Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Tania Evans drefnu gosod arwydd wrth y llwybr sydd newydd gael ei wyro wrth y capel wedi'i newid yn gartref.

## **253 GOHEBIAETH**

**253.1 Sedd wag ar y Cyngor** – Atgoffodd y Clerc yr aelodau y dilynwyd y drefn arferol o ran llenwi'r sedd wag, sef, cynghori Swyddog Canlyniadau Cyngor Sir Ddinbych, a hysbysebu'r sedd wag yn ardal y Cyngor Cymuned. Derbyniwyd cais oddi wrth Rosanne Jarvis o ganlyniad i hyn, a ddarllenwyd gan y Clerc.

PENDERFYNWYD – Cytunwyd yn unfrydol y dylid cyfethol Rosanne Jarvis yn aelod o'r Cyngor Cymuned a'i gwahodd i aros ar gyfer Rhan 2 y cyfarfod.

**253.2 Gwahoddiad i fynd i Grwpiau Ffocws Cyngor Sir Ddinbych ar un ai 22 Medi [Neuadd Bentref Trefnant] neu 27 Medi 2016 [Canolfan Cae Cymro, Clawddnewydd] am 6pm.** Y pwrpas yw trafod beth sy'n gweithio'n dda ymhob cymuned leol; y gobeithion a'r dyheadau ar gyfer y dyfodol; sut y gall y Cyngor adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda yn awr a gwireddu hyn yn y dyfodol a beth allai rwystro'r pethau hyn rhag digwydd. Roedd y Cynghorwyr Keith Mousdale a Tim Faire wedi mynegi diddordeb mewn mynd i'r cyfarfodydd.

PENDERFYNWYD – y byddai'r Cynghorydd Keith Mousdale yn mynd i un grŵp ffocws ar 22 Medi yn Neuadd Bentref Trefnant a'r Cynghorydd Tim Faire yn mynd i'r cyfarfod grŵp ffocws arall ar 27 Medi 2016 yng Nghanolfan Cae Cymro, Clawddnewydd. Y Clerc i sicrhau lle fel bo'n ofynnol.

**253.3 Cyllid Cymudol** – Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn neges e-bost dyddiedig 2 Medi 2016 oddi wrth Amy Selby, Swyddog Prosiectau Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych, ac roedd copi wedi'i anfon at y Cynghorwyr. Roedd yr e-bost yn tynnu sylw at y ffaith fod swm cyfyngedig o gyllid ar gael o 5 Medi 2016 yn benodol ar gyfer gwella gwagleoedd agored a mannau chwarae. Gellir defnyddio'r cyllid i wella gwagleoedd agored neu osod ardaloedd chwarae a gall y prosiectau gynnwys: gwella hygyrchedd cyfleusterau; uwchraddio'r cyfleusterau; darparu gwaith draenio neu arwyneb newydd, gwaith ffensio a gosod goleuadau, cyfleusterau newid neu le parcio.

PENDERFYNWYD – Y byddai'r Cadeirydd, John Pugh, a'r Cynghorwyr Wini Davies a Jayne Mayers yn tynnu sylw gwahanol sefydliadau at y gronfa hon, sef Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor, Maes Parcio Graigfechan a Chae Chwarae Pentrecelyn.

## **254 CYNLLUNIO**

**254.1 Adeiladau Allanol Garreg Lwyd, Pentrecelyn** – Derbyniwyd neges e-bost dyddiedig 24 Awst 2016 oddi wrth Mr a Mrs G Rees gyda'r pwrpas o hysbysu'r Cyngor fod yr adeiladau amaethyddol yng Ngharreg Lwyd, Pentrecelyn ar gael ar osod at ddibenion cyflogaeth, busnes, masnachol neu gymunedol. Roedd yr aelodau o'r farn y gallai hyn arwain at gais cynllunio ar gyfer newid defnydd maes o law.

PENDERFYNWYD – hysbysu Mr a Mrs G Rees fod yr Aelodau wedi derbyn a nodi cynnwys eu neges e-bost.

**254.2 Cais 20/2016/0756** – Adeiladu estyniad i borth, Waen y Ffynnon, Pentre Coch. Ystyriwyd y cais hwn gan y Cadeirydd a'r Cyngorwyr Dennis Edwards a Medwen Roberts. Roedd yr aelodau yn cefnogi'r cais.

PENDERFYNWYD - cadarnhawyd y gweithredu gan y Cadeirydd a'i gyd Gyngorwyr.

### **254.3 Cynnig i adeiladu tai yn Llanfair D C**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gynnig i adeiladu tai yn Llanfair D C y tu ôl i dai sy'n bodoli eisoes yn y pentref, lle byddai'r mynediad i'r safle o'r ffordd fawr i gyfeiriad Rhuthun. Bydd y datblygwyr yn ymgynghori ag unigolion yn ogystal â'r Cyngor Cymuned. Bydd y datblygwr yn cael ei wahodd i ddod i gyfarfod arbennig o'r Cyngor Cymuned a thrigolion lleol.

PENDERFYNWYD – trefnu cyfarfod arbennig yn y dyfodol agos a chynghori'r datblygwr, PURE, am hynny.

### **254.4 Aseiad ac Archwiliad Anghenion Gwagleoedd Agored Sir Ddinbych**

Fel rhan o fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych [2013] ymrwymodd y Cyngor Sir i gynnal archwiliad cynhwysfawr o wagleoedd hamdden agored y sir; aseiad o'r galw a'r cyfeiriad ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Roedd swyddogion wedi llunio mapiau yn nodi gwagleoedd agored a'u hanfon at Gyngorau Tref a Chymuned er mwyn cadarnhau'r hyn a nodwyd. Gofynnir i'r Cyngorwyr sylwi ar unrhyw wagleoedd agored wedi'u hepgor, data anghywir neu ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion hamdden lleol mwyach er mwyn sicrhau bod y data yn gyflawn a chynhwysfawr. Defnyddir y canlyniadau i ddatblygu Strategaeth Gwagle Agored ar gyfer y sir ac i hysbysu'r Cynllun Datblygu Lleol a strategaethau eraill y sir. Roedd y Clerc wedi dosbarthu'r mapiau a'r data i sylw'r Cyngorwyr fel y gellir llunio ac anfon y wybodaeth i'r Cyngor Sir erbyn 16 Medi 2016.

PENDERFYNWYD – bod y Clerc yn cydlynu'r ymatebion a dderbyniwyd eisoes gan Aelodau ac i unrhyw sylwadau ychwanegol gael eu hanfon ati gynted ag y bo modd fel ei bod yn medru ateb erbyn y dyddiad cau, 16 Medi.

## **255 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD**

### **255.1 Cyflwyniad gan MR JAMES HALL, UWCH BEIRIANNYDD, CYNGOR SIR DDINBYCH ynghylch Pont Eyarth – Cyfyngiad Pwysau Arfaethedig**

Ystyrir Pont Eyarth yn gyswllt pwysig â Rhuthun. Rhannodd Mr Hall ffotograffau yn dangos bod cyflwr y bont yn dirywio, mae'r garreg yn wlyb yn barhaus, mae dŵr yn dod trwy'r garreg yn hytrach na'r pwyntiau ac roedd problemau dŵr daear. Gwnaed aseiad cyflwr a ddaeth i'r penderfyniad mai 18 tunnell yw'r uchafswm, sy'n golygu nad yw'n addas ar gyfer lorïau mawr [gallai hyn fod yn broblem i lorïau llefrith]. Rhybuddiodd, petai'r dirywio yn parhau, gallai hyn ostwng i 7.5 tunnell. Er enghraifft, mae ambiwlans a bws yn pwyso 3.5 ac 11 tunnell yn ôl eu trefn, a fyddai'n dod yn broblem ymhen amser. Byddai gosod cyfyngiad pwysau 18 tunnell [cyfanswm pwysau gros] yn ymdrin â'r sefyllfa am y tro. Os nad yw'r cyfyngiad pwysau yn ei le bydd y bont yn dirywio'n gyflymach. Mae cynlluniau, ond dim cyllideb, ar gyfer gwaith adfer sylweddol. Mae angen ymrwymiad cyllido am nifer o flynyddoedd [cyfanswm o £307,300, symiau llai y flwyddyn] – mae pontydd yn tueddu bod ar gylchdro pum mlynedd ond gellid rhoi peth cyllid cefnffyrdd tuag at hyn. Y casgliad oedd bod angen nifer o dymhorau i'r bont sychu ac amser i

sicrhau cyllideb. Ni phenderfynwyd ar yr arwyddion eto, ond bydd un y naill ochr i'r bont, un yn y pentref ac mewn lleoliadau eraill.

Atgoffwyd yr aelodau mai dyma'r cam cyntaf yn y broses ymgynghori. Roedd Mr Hall angen adborth ar sut fydd y cyfyngiad pwysau yn effeithio ar y gymuned leol. Mae'n chwilio am dystiolaeth i gyfiawnhau cost trwsio'r bont, a chynghorodd bod angen cyflwyno'r cyfyngiad pwysau gynted ag y bo modd. Gallai tynnu sylw at broblemau gwyrto'r traffig helpu. Cydnabu y byddai hyn yn cael effaith ar y gymuned leol, ond gall cludiant cyhoeddus a cherbydau brys barhau i ddefnyddio'r bont am y tro. Mae'n debygol y byddai'r bont yn cael ei chau ar gyfer gwaith trwsio yn y nos yn ystod yr haf. Ni fyddai unrhyw waith yn cael ei wneud yn y gaeaf.

Gofynnodd am gymorth yn cael barn, tynnu sylw trigolion sy'n byw yn y gymuned a gofynnodd am restr o'r holl ffermwyr sy'n byw yn y cyffiniau. Diolchwyd i Mr Hall am ddod i'r cyfarfod ac am ei gyflwyniad diddorol.

PENDERFYNWYD – anfon manylion cyswllt y CLA, NFU, Undeb Amaethwyr Cymru, Coleg Llysfasi a ffermwyr lleol at James Hall.

### 255.2 Y Gofeb Rhyfel, Llanfair D C

Adroddwyd fod y Cynghorydd Keith Mouldsdaie wedi derbyn cwyn gan bentrefwr am gyflwr y slabiau o gwmpas y gofeb yn Llanfair. Ar ôl edrych ei hun roedd o'r farn eu bod yn mynd yn beryglus.

PENDERFYNWYD – cael dyfynbrisiau am waith adfer, yn cynnwys cost gosod pwynt trydan a dŵr. Cytunodd y Cadeirydd gysylltu â'r Gronfa Cofebau Rhyfel i weld a oedd cyllid ar gael.

### 255.3 Cynllun Fferm Wynt – Prosiectau Cymunedol – lluniwyd ac anfonwyd Rhestr Flaenoriaethau at yr Aelodau.

PENDERFYNWYD – Yn dilyn trafodaeth blaenoriaethwyd y cynigion fel a ganlyn:

Allwedd – Cost Isel (I)<£500, Canolig (C)<£2000, Uchel (U)>£2000				
Cynigion	Cost UCI	Blaenoriaeth UCI	Sylwadau / Gweithredoedd	
1	Cwblhau gwaith clirio / atgyweirio'r ardal o gwmpas y gofeb rhyfel a'r ardal laswellt y tu ôl i'r gofeb.	I	U	Prif flaenoriaeth, angen ei wneud
2	Darpariaeth trydan a dŵr i'r gofeb rhyfel	I	U	Prif flaenoriaeth, angen ei wneud
3	Gardd gymunedol, ger yr Eglwys efallai, lle gall pobl gerdded, eistedd a chyfarfod. Gardd heddwch gyda meinciau ar gyfer myfyrion dawel. Efallai cynnwys ardal ddistaw gyda seddi.	C	I	Angen ymgynghori â'r Eglwys. Mae'r ardal eisoes yn gweddu i hyn. Angen ystyried yr angen yng NgraiFFEchan a Phentrecelyn hefyd.
4	Ardal(oedd)/Maes/Meysydd Chwarae i Blant / Ardaloedd Chwarae Penodedig mewn pentrefi.	C	C	Roedd cynnig i ddarparu ffens ym Mron Clwyd. Hefyd gellid uwchraddio cae Ysgol Pentrecelyn. Mae hyn yn addas ar gyfer cais am arian ar unwaith.
5	Seddi cyhoeddus.	I	C	Ystyried darpariaeth a lleoliadau.
6	Rhandiroedd – cyn belled bod galw ac ymrwymiad gan nifer digonol o bobl.	C	I	Angen canfod a oes galw.

7	Uwchraddio Neuadd y Pentref i safonau modern at ddefnydd y gymuned, i gynnwys ffenestri gwydr dwbl, uwchraddio'r system wresogi a gosod cegin newydd. Y cyfleusterau i'w diffinio gan y defnyddwyr.	U	U	Prif flaenoriaeth
8	Cwblhau'r maes parcio a darparu mynediad i'r rhyngwyd yn Neuadd y Pentref.	U		Prif flaenoriaeth – gallai fod yn addas ar gyfer cais am arian ar unwaith.
9	Arwyddion ar gyfer yr holl bentrefi sy'n cyfleu ymdeimlad o falchder yn yr ardal.	U	C	Dylid gofyn am y ddarpariaeth hon gan Gyngor Sir Ddinbych
10	Glanhau'r ffyrdd yn rheolaidd / cael gwared o chwyn i ddarparu ymdeimlad o falchder yn yr ardal	U	U	Ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych i ofyn i hyn gael ei wneud fel rhan o'r drefn rheolaidd.
11	Llwybr diogel o Lanfair i Bwllglas.	U	C	Ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych i ofyn am gymorth gyda gwaith dichonoldeb, dylunio dechreuol ac amcanbrisiau ar gyfer hyn.
12	Llwybr diogel ar yr A494 o Lanfair i Rhuthun.	U	C	
13	Parhau'r palmant o Lanfair hyd at Goleg Llysfasi.	U	C	
14	Llwybr beicio i alluogi mynediad rhwng y pentrefi ac i Rhuthun heb wrthdaro â cherbydau.	U	C	
15	Llwybr ymarfer corff – llwybr sy'n ysbrydoli unigolion i redeg neu gerdded, gydag offer ymarfer corff i'w defnyddio ar wahanol leoliadau ar hyd y llwybr.	C	I	Ni ystyrir bod hyn yn angenrheidiol gan fod digonedd o sgôp ar gyfer ymarfer corff yn yr ardal.
16	Llwybr sy'n rhoi mynediad i bobl ag anabledd yn benodol; yn hawdd i bobl mewn cadeiriau olwyn ond hefyd ag arwyneb da a graddiannau bach iawn.	C	I	Gellid ystyried hyn os oes galw.
17	Llwybr i fyny Bwlch Nant y Garth i roi mynediad i'r ardal arbennig hon.	U	C	Ymgynghori â Choleg Llysfasi i weld a fedrant wneud y llwybr sy'n bodoli eisoes yn fwy hygyrch.
18	Llwybrau cerdded cylchol sy'n rhoi mynediad i fannau o ddiddordeb yn yr ardal.	C	C	Gweithio gyda staff Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych i ddatblygu a sicrhau y darperir arwyddion priodol.
19	Llwybr beicio mynydd o Fryniau Clwyd ar hyd y gefn a mynediad i'r pentrefi (ar hyd Llwybr Clawdd Offa).	C	I	Ni ystyrir bod hyn yn briodol. Dylid cadw Llwybr Clawdd Offa fel llwybr troed yn unig.
20	Cuddfannau gwyllo adar.	C	C	Ystyried darpariaethau a lleoliadau.
21	Uwchraddio'r arosfan bws ar Ffordd Wrecsam ger yr ysgol	C	C	Holi a fedr Cyngor Sir Ddinbych wneud hyn.
22	Darparu a chynnal hysbysfyddau ymhob pentref.	I	U	Hanfodol a dylai'r Cyngor Cymuned wneud hyn. Mae drysau hysbysfwrdd Graigfechan wedi mynd.
23	Darparu llwybrau ceffylau cylchol i sicrhau nad oes rhaid i farchogwyr fynd ar y ffyrdd.	C	U	Gofyn i swyddogion llwybrau cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych adolygu hyn.
24	Darparu caffï ar gyfer yr ardal.	U	C	Ystyried hyn fel ychwanegiad i'r tafarndai.
25	Darparu siop gymunedol.	C	C	Ymgynghori â Phwllglas a Llandegla ynghylch dichonoldeb.

## RHAN 2 – Eitemau Cyfrinachol – Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

### 256 MATERION ARIANNOL

#### 256.1 Talu Cyfrifon/Anfonebau

**256.1.1** Anfoneb gan Sandra Williams am gyfieithu cofnodion Tachwedd 2015, Ionawr, Mawrth, Mai, Mehefin a Gorffennaf 2016 minutes - £353.95 + £70.79 TAW = £424.74.

**256.1.2** Anfoneb gan SLCC – Ffi Cynhadledd Llandudno - £69.00 + £13.80 TAW = £82.80.

PENDERFYNWYD – gwneud y taliadau canlynol:

256.1.1 Gwaith cyfieithu £424.74

256.1.2 Ffi Cynhadledd SLCC £82.80

### **256.1.3**

Cyflwynodd y Clerc y datganiad ariannol a ganlyn am y cyfnod 1 Gorffennaf i 31 Awst 2016: Cyflog fel a benderfynwyd – Cyfarfod Gorffennaf 2016 – Pwynt 25 - £3,070.32 y flwyddyn [pro rata yn weithredol o 1 Gorffennaf 2016]

Cyflog net yn ddyledus ar gyfer:

Gorffennaf 2016	£204.86	Treth yn ddyledus	£51.00
Awst 2016	<u>£204.66</u>	Treth yn ddyled	<u>£51.20</u>
Cyfanswm	<u>£409.52</u>		<u>£102.20</u>

Ad-daliadau am nwyddau swyddfa:

‘Co bach’ Sandisk at ddiben copi wrth gefn	£ 11.00
Cetris inc	£ 8.24
Ad-daliad costau postio	<u>£ 14.40</u>
Cyfanswm	<u>£ 33.64</u>

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r taliadau fel y'u cynigiwyd, hynny yw, cyflog £409.52, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi £102.20 a threuliau £33.64.

**256.1.4** Esboniodd y Clerc fod gwasanaeth cyflogres Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych wedi eu trosglwyddo i AVOW yn Wrecsam yn weithredol o 1 Medi 2016. Derbyniwyd anfoneb am gyflog mis Medi y Clerc am y swm crynswth o £255.86. Bydd AVOW yn gyfrifol am anfon y dreth incwm sy'n ddyledus i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi o'r dyddiad hwn ymlaen.

PENDERFYNWYD – gwneud taliad i AVOW i dalu cyflog y Clerc ym mis Medi [£255.86 - crynswth].

### **256.2 Ceisiadau am Gymorth Ariannol –**

**256.2.1** Cofeb Rhyfel Llanfair D C – Blychau blodau – derbyniwyd neges e-bost oddi wrth Moira Edwards.

PENDERFYNWYD – dyfarnu grant o £130 tuag at gost blychau blodau wrth y Gofeb.

### **256.3 Crynodeb Incwm a Gwariant am y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Awst 2016**

Cyflwynodd y Clerc ddatganiad ariannol am y cyfnod 1 Ebrill i 31 Awst 2016 i'r Aelodau o ran y Cyfrif Cyffredinol a'r Cyfrif Busnes. Nid oedd dwy sic gwerth £350 [Cofnod 236.4.2 a 236.4.5] wedi'u cyflwyno hyd yma.

### **256.4 Praesept drafft y Dreth Gyngor 2017-18**

Cyflwynwyd – cynigion drafft ar gyfer 2017/18 ynghyd â manylion cymharol a ystyriwyd yn flaenorol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2016/17, 2015/16 a 2014/15.

PENDERFYNWYD – y dylai'r ffigurau praesept drafft gynnwys swm uwch ar gyfer meddalwedd cyfrifiadurol, cost cyfarfodydd ychwanegol a chostau hyfforddiant. Bydd y praesept yn cael ei drafod eto yng nghyfarfod mis Tachwedd.

### **257 Archwilio Allanol – Datganiad Cyfrifyddu 2015-16 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Adroddodd y Clerc bod BDO wedi anfon neges e-bost ar 26 Awst 2016 i gadarnhau na chodir tâl ychwanegol ar y Cyngor Cymuned. Bydd y ffi yn cael ei seilio'n gyfangwbl ar yr amser a gymrwyd i gynnal yr archwiliad.

### **258 Cytundeb Cyflogaeth y Clerc**

Cyflwynwyd cytundeb cyflogaeth drafft i'r Aelodau ei drafod. Roedd y cytundeb wedi'i seilio ar ddogfennau ar y ffeil a chytundeb enghreifftiol ar gyfer Clercod gan SLCC.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyodd yr aelodau y cytundeb drafft a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Clerc a'r Cadeirydd ei lofnodi.

### **259 Dyddiadau hyfforddiant CiLCA i Glercod**

Roedd y Clerc wedi derbyn manylion am gwrs CiLCA arfaethedig i'w gynnal yn yr Wyddgrug ar y dyddiadau a ganlyn: Diwrnod 1 – 21 Chwefror, Diwrnod 2 – 28 Mawrth, Diwrnod 3 – 11 Ebrill a Diwrnod 4 – 16 Mai 2017. Cyfanswm y gost yw £250 ond gellid cael bwrsari gan Lywodraeth Cymru os cyflwynir cais erbyn 28 Chwefror 2017.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyodd yr aelodau bod y Clerc yn mynd ar y cwrs CiLCA ar gost o £250.

### **260 Unrhyw fater arall**

**260.1 Gwyllo Cyflymder Cymunedol** – cynghorodd John Morris, Rheolwr Gwyllo Cyflymder Cymunedol Heddlu Gogledd Cymru fod chwech gwirfoddolwr arall i'w hyfforddi yn Llanfair D C ar 8 Medi 2016. Dylai hyn sicrhau bod grŵp lleol yn medru cynnal arolygon Gwyllo Cyflymder Cymunedol. Y Cynghorydd Steve Whipp i holi a all yr Heddlu ddarparu dau wn cyflymder am ddim at ddefnydd y gymuned, ac os nad yw hynny'n bosibl, canfod cost prynu'r eitemau hyn.

PENDERFYNWYD – Bod yr aelodau yn cymeradwyo hyn mewn egwyddor.

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod am 9.30 pm.

### **261 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – DYDD MERCHER, 2 TACHWEDD 2016**

\_\_\_\_\_  
CADEIRYDD

\_\_\_\_\_  
DYDDIAD

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair D C nos Fawrth, 25 Hydref 2016 am 7.00 pm. Trefnwyd y cyfarfod hwn i ystyried ymateb y Cyngor i ddatblygiad arfaethedig 63 o dai ar dir oddi ar Ffordd Wreccsam, Llanfair D C gan PURE Residential & Commercial Limited, New Vision House, Parc Busnes Gweledigaeth Newydd, Ffordd Glascoed, Llanelwy, LL17 0LP.

**PRESENNOL** – Y Cyngorwyr Steve Whipp [Is Gadeirydd], David Baker, Dennis Edwards, Tim Faire, Rosanne Jarvis, Jayne Mayers, Keith Mouldsdale. Eirwen Godden, Clerc.

**HEFYD YN BRESENNOL** – 8 o drigolion ynghyd â Goronwy Owen, Rheolwr Datblygu, a Gareth P Jones yn cynrychioli PURE.

**YMDDIHEURIADAU** – Y Cyngorwyr John Pugh [Cadeirydd], Wini Davies a Medwen Roberts.

### **262 Ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio**

Cadeiriodd y Cynghorydd Steve Whipp y cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd John Pugh, a chroesawodd bawb i'r cyfarfod.

Esboniodd Goronwy Owen mai proses cyn cyflwyno cais cynllunio oedd hon, yr ymgynghoriad cyntaf o'i fath yn Sir Ddinbych a Gogledd Cymru ers i'r rheolau newydd ddod i rym. Mae hon yn broses newydd sy'n berthnasol i'r holl geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sylweddol. Roedd PURE o'r farn ei fod wedi gwneud mwy na'r hyn oedd ei angen i gydymffurfio â'r gweithdrefnau cyhoeddusrwydd/ymgyngori sy'n ofynnol er mwyn caniatáu gwneud sylwadau mewn ymateb i'r cais. Roedd hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth/cynlluniau ar eu gwefan, yn Llyfrgell Rhuthun a chynnal sesiwn prynhawn rhwng 2 a 6 o'r gloch yn Neuadd Eleanor, Llanfair D C ddydd Mawrth, 25 Hydref 2016, i roi cyfle i bobl ddod i'w cyfarfod a gofyn cwestiynau. Roedd 14 o bobl wedi ymweld â'r neuadd ar yr achlysur hwnnw.

Daethpwyd â'r cynlluniau i gyfarfod y Cyngor. Hwylusodd Mr Owen sesiwn holi ac ateb – mae'r cynlluniau'n dangos bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys 63 annedd newydd, yn gymysgedd o dai pâr a thai sengl dwy a thair ystafell wely, tai pedair ystafell wely, bloc bychan o fflatiau a byngalos. Mynegodd rhai trigolion bryder ynghylch sŵn o'r ystad newydd a allai darfu arnynt, hynny yw, ceir, plant, lorïau ac ati, gan ychwanegu y byddai datblygiad o'r maint hwn yn cael cryn effaith ar y gymuned. Nodwyd bod tua 100 o dai ar hyn o bryd, gyda chynnydd potensial o 63 ychwanegol.

Mae maint y gerddi yn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol. Ni ellir penderfynu ar werth y farchnad y tai eto. Bydd y tai yn rhai rhydd-ddaliad ac eithrio'r fflatiau, a fydd yn rhai lesddaliad. Bydd chwech eiddo yn ddarostyngedig i gytundeb Adran 106 dan y rheoliadau tai fforddiadwy, ond ni wnaed penderfyniad hyd yma pa rai fydd yn cael eu dynodi'n dai fforddiadwy. Gwneir hyn fel rhan o'r broses gynllunio llawn. Mae'r safle wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, yn cynnwys arwynebedd o 2.6 hectar a byddai'r datblygiad yn cael ei gwblhau mewn dwy ran. Bydd manau parcio yno, a bydd y cynllun yn cynnwys gwagle agored cyhoeddus a bydd ardal storio dŵr arwyneb yn cael ei adeiladu o dan y gwagle agored er mwyn rheoli llif dŵr i'r ffrydiau sy'n bodoli eisoes trwy

gyfrwng siambr pwmpio bychan. Bydd y cyfrifoldeb am y cyfleuster hwn yn dibynnu ar drafodaethau gyda Dŵr Cymru. Mynegwyd pryder bod angen rhoi tanciau mwy o faint i atal llifogydd potensial yn lle'r strwythurau arfaethedig maint cratiau.

Ni fydd y Cyngor Sir yn gyfrifol am gynnal a chadw'r ardal gwagle agored. Mae angen rhagor o drafodaethau ynghylch toll ar gyfer yr ardal gyfan a'r posibilrwydd y gwnaiff y Cyngor Cymuned ysgwyddo'r costau cynnal a chadw. Bydd y gwrychoedd sy'n bodoli eisoes, ac eithrio'r rhai yng nghanol y safle, yn aros; bydd yr holl goed ac eithrio dwy ar gyfer gwneud lle i'r fynedfa yn aros, ac maent wedi eu gwarchod. Roedd y trigolion yn dymuno gweld mesurau tymor hir i warchod y coed ar blotiau 17 a 36 yn benodol. Bydd coed newydd yn cael eu plannu a chedwir y llwybr cyhoeddus sy'n bodoli eisoes. Byddai ffensys newydd yn cael eu gosod rhwng y tai. Fodd bynnag, roedd rhai trigolion yn teimlo y gallai ffensys pren effeithio ar symud rhydd bywyd gwyllt, megis draenogod. Ymhellach, byddai ffensys uchel wrth ymyl yr ardal goediog yn negyddu creu gwagleoedd agored gan arwain at rwystro golygfeydd. Nodwyd y gallai'r ffensys pren yn unol â'r hyn a argymhellir gan yr Heddlu a Llywodraeth Cymru [Diogelu drwy Ddylunio] achosi problemau mewn rhai ardaloedd yn y cynllun.

Bydd yr arwydd 30 milltir yr awr yn cael ei symud ymhellach yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol. Lleolir yr ardal werdd wrth y fynedfa i'r safle ond roedd rhai pobl o'r farn bod yr ardal hamdden yma yn rhy agos at y ffordd fawr i fod yn ddiogel. Bydd ardal storio nwy propan hylifol (LPG) wedi'i leoli dan ddaear y gellir ei chyrraedd trwy yrru ar hyd ffordd yr ystad. Bydd rhaid uwchraddio'r gwaith carthffosiaeth – ni all unrhyw un fyw ar y safle nes bo'r gwaith hwn wedi'i gwblhau. Cydnabuwyd y byddai'n rhaid cael cyswllt agos rhwng Dŵr Cymru a PURE i sicrhau nad oedd unrhyw oedi wrth gynnal gwaith hanfodol o'r fath.

Awgrymodd Mr Owen y gallai'r datblygiad gynorthwyo i gadw ysgol y pentref ar agor trwy i'r trigolion newydd fod yn deuluoedd â phlant a fyddai'n mynychu'r ysgol. Mae'r cynnig yn cynnwys darparu man croesi mewn llecyn diogel ar y brif ffordd er mwyn mynd i'r ysgol, oddi wrth yr ymyl ffordd cul. Dywedodd y rhai a oedd yn bresennol y byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i gerddwyr groesi'r ffordd ddwywaith er mwyn cyrraedd yr ysgol. Nodwyd fod y Cyngor Cymuned eisoes wedi trafod darparu croesfan i gerddwyr, goleuadau traffig a mesurau arafu traffig yn y cyffiniau gyda'r Cyngor Sir. Cyfeiriwyd hefyd at gynigion diweddar a luniwyd gan y Cyngor Cymuned i wella cyfleusterau yn y gymuned petai cyllid ar gael. Bydd modd gweld manylion ar wefan y Cyngor Cymuned maes o law. Cynghorodd Mr Owen eu bod yn disgwyl am ymateb gan yr Adran Priffyrdd o ran mynediad i gerddwyr a bod hyn y tu hwnt i gylch gorchwyl PURE. Gofynnwyd a fyddai modd cael mynediad trwy Barc y Llan neu Fron y Clwyd, ond byddai hyn yn dibynnu ar gytundeb y perchennog tir. Nodwyd bod Coleg Llysfasi [Cambria] yn berchen ar y tir nesaf at y datblygiad arfaethedig. Roedd teimlad cryf bod angen datrysiad a fyddai'n darparu llwybr diogel i gerddwyr i'r ysgol. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae angen pum oedolyn i fynd gyda'r plant wrth groesi'r ffordd o'r ysgol i ddefnyddio Neuadd Eleanor. Dylid ystyried barn cymuned yr ysgol fel rhan o'r broses ymgynghori hefyd.

Arweiniodd hyn at drafodaeth nad yw'r datblygiad arfaethedig fel y mae ar hyn o bryd yn rhan annatod o weddill y gymuned yn Llanfair. Dim ond un fynedfa sydd i fynd i mewn ac allan o'r safle. Byddai llwybr amgen i gerddwyr yn cysylltu'r datblygiad â'r tai sy'n bodoli eisoes yn caniatáu integreiddio i'r gymuned. Teimlwyd y gellid gwella dyluniad a chynllun gosod y datblygiad mewn nifer o ffyrdd ac y byddem yn anfon sylwadau ac awgrymiadau i PURE.



Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 3 Tachwedd 2016 ac yn dilyn hynny bydd PURE yn adolygu'r holl ymatebion a dderbyniwyd ac yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych. Bydd cais cynllunio llawn yn cael ei gyflwyno ymhen dwy i dair wythnos ar ôl 3 Tachwedd 2016. Hysbysir y Cyngor Cymuned yn y dull arferol trwy'r broses ymgynghori ffurfiol. Diolchodd y Cyngorydd Steve Whipp i Goronwy Owen a Gareth P Jones am eu mewnbwn a'u cydweithrediad hyd yma.

PENDERFYNWYD – paratoi cofnodion ac ymateb drafft a'r Clerc i'w hanfon at yr holl Gynghorwyr am sylwadau gynted ag y bo modd. Roedd consensws cyffredinol y dylid cefnogi'r datblygiad, y gallai fod o fudd o ran bywiogi'r pentref, ond roedd nifer o faterion sy'n peri pryder ac angen eu hystyried ac ymdrin â nhw cyn rhoi caniatâd cynllunio llawn, sef

- [a] Ystyrir bod y mynediad arfaethedig i gerddwyr i'r briffordd a'r pentref yn annigonol ac yn anniogel
- [b] Y gwagle agored cyhoeddus yn rhy agos at y ffordd fawr
- [c] Maint y datblygiad mewn perthynas â'r pentref presennol a'r effaith ar y gymuned yn deillio o hynny
- [d] Nid yw natur arunig y datblygiad yn ei integreidido i'r gymuned
- [e] Angen i'r amwynderau gweledol gyd-fynd yn well o ran yr effaith ar dai sy'n bodoli eisoes
- [f] Ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i fywyd gwylt, er enghraifft, byddai colli gwrych yn destun gofid
- [g] Gwrthddweud ynghylch nifer y coed i'w gwaredu
- [h] Pryder a fydd rhaglen Dŵr Cymru yn cyd-fynd â'r amserlen ar gyfer y datblygiad
- [i] Gallai ffensys ger y llwybr cyhoeddus fod yn beryglus.

Cytunwyd i lunio ymateb ffurfiol i PURE a'i ddisbarthu i'r holl Gynghorwyr am eu sylwadau a'u mewnbwn, ac y byddai'n cael ei lofnodi yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned ar 2 Tachwedd 2016. Byddai'n cael ei e-bostio i PURE i gydymffurfio â'r dyddiad cau, sef 3 Tachwedd 2016. Bwriedir anfon copi i Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych, er gwybodaeth.

[Noder: Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau am y datblygiad arfaethedig ysgrifennu at yr asiant yn: The Planning Consultancy, Bridge Farm, Sarn, Malpas, Swydd Gaer, SY14 7LN neu trwy e-bost i: [mcgilbert@btconnect.com](mailto:mcgilbert@btconnect.com) ].

Cyhoeddwyd bod y cyfarfod wedi gorffen am 9pm.

\_\_\_\_\_  
CADEIRYDD

\_\_\_\_\_  
DYDDIAD

## **CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair D C nos Fercher, 2 Tachwedd 2016 am 7.00pm.

**PRESENNOL** – Y Cyngorwyr John Pugh [Cadeirydd], Steve Whipp [Is-gadeirydd], David Baker, Dennis Edwards, Tim Faire, Rosanne Jarvis, Jayne Mayers a Keith Mouldsdale. Eirwen Godden, Clerc.

**HEFYD YN BRESENNOL** – Trigolion Tim Cook, A Edwards a David Greenhalgh.

### **Rhan 1**

#### **YMDDIHEURIADAU –**

Y Cyngorwyr Wini Davies a Medwen Roberts.

#### **263 DATGAN BUDDIANNAU**

Dim.

#### **264 COFNODION**

Cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 7 Medi a 25 Hydref 2016.

**PENDERFYNWYD** – Cymeradwyo'r cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

#### **265 MATERION YN CODI**

##### **243.2 Carafan yn Erw Fair, Llanfair D C**

Cynghorodd Adam Turner, Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio Cyngor Sir Ddinbych, nad oedd unrhyw gais cynllunio ôl-weithredol wedi'i gyflwyno hyd yma, a'i fod yn cynnig rhoi estyniad o 14 diwrnod i'r tramgwyddwr honedig. Os na dderbynnir cais erbyn 27 Hydref byddai'n ystyried cyflwyno hysbysiad gorfodaeth a fyddai'n galw am symud y garafan oddi ar y tir.

##### **253.1 Sedd wag ar y Cyngor**

Cadarnhawyd bod y Cynghorydd Rosanne Jarvis wedi llofnodi'r ffurflen Datganiad Derbyn y Swydd ac wedi derbyn copïau o'r Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Aseiad Risg a Chod Ymddygiad Aelodau.

##### **253.2 Cyfarfod Grŵp Ffocws Cyngor Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 22 Medi 2016**

Adroddodd y Cynghorydd Keith Mouldsdale fod y cyfarfod yn ddiddorol ac yn canolbwyntio ar wella materion yn gyffredinol mewn gwahanol gymunedau. Adroddodd y Clerc bod e-bost wedi'i anfon gan Dîm Cynllunio Strategol Cyngor Sir Ddinbych ar 26 Hydref 2016 yn diolch i'r holl gyfranogwyr am eu cyfraniadau. Bwriedir cynhyrchu adroddiad a'i ddosbarthu maes o law. Roedd ystod eang o themâu wedi dod i'r fei, yn cynnwys yr amgylchedd, tai a phwysigrwydd cyfathrebu'n

well â chymunedau. Defnyddir yr wybodaeth i gytuno ar y dewisiadau o ran blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol nesaf Sir Ddinbych.

### **253.3 Cyllid Cymudol**

Adroddodd y Cynghorydd John Pugh y byddai Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor yn cyflwyno cais am gyllid. Roedd Ysgol Pentrecelyn wedi mynegi diddordeb mewn cyflwyno cais hefyd.

## **266 GOHEBIAETH**

**266.1 Etholiadau Cyngor** – Llythyr oddi wrth Swyddog Canlyniadau Cyngor Sir Ddinbych yn hysbysu am Etholiadau Cyngor Tref a Chymuned i'w cynnal ar 4 Mai 2017 [yr un diwrnod ag Etholiadau'r Cyngor Sir] ynghyd ag arweiniad ar y costau a ragfynegir at ddibenion praesept [cymunedau â hyd at 1,000 o etholwyr - £1,700].

**266.2 Comic Relief** - E-bost gan Swyddog Prosiectau Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych ynghylch cyfleoedd am gyllid Comic Relief yn Sir Ddinbych.

**266.3 Cyfarfod anffurfiol gyda'r Cyngor Sir** – Gwahoddiad gan Is-gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych i Feiri, Cadeiryddion a Chlercod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i ddod i gyfarfod anffurfiol nos Fercher, 16 Tachwedd 2016.

**266.4 Gwasanaeth Nadolig** – Gwahoddiad gan Gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych i ddod i Wasanaeth Dathlu'r Nadolig yn Eglwys y Santes Fair, Rhuddlan, nos Fawrth, 6 Rhagfyr 2016.

## **PENDERFYNWYD**

[a] nodi'r ohebiaeth.

[b] 266.2 anfon copi o'r e-bost i Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair DC.

[c] 266.3 y byddai'r Cynghorydd Keith Mouldale a'r Clerc yn mynd i'r cyfarfod ar 16 Tachwedd 2016.

[d] 266.4 dylai unrhyw Gynghorydd sy'n dymuno mynd i'r Gwasanaeth Nadolig ar 6 Rhagfyr 2016 gysylltu â'r Clerc.

## **267 CYNLLUNIO**

### **267.1 Ymgynghori – Canllawiau Cynllunio Atodol**

Mae'r Cyngor Sir wedi cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar Gynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol. Roedd copi o'r hysbysiad eisoes wedi'i anfon at yr aelodau yn gynharach ym mis Hydref. Mae'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus rhwng 3 Hydref a 28 Tachwedd 2016. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol yn darparu arweiniad ar wahanol bynciau i ymgeiswyr cynllunio, cymunedau a'r Cyngor. Unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor byddant yn cael eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl gynigion datblygu ac mae'n datgan bod rhaid i ddatblygiad 'Ystyried diogelwch personol a chymunedol yn nyluniad a chynllun gosod y datblygiad a manau cyhoeddus/preifat ac ystyried y goblygiadau o ran trosedd ac anhrefn.'

PENDERFYNWYD bod y Clerc yn ysgrifennu at Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai Cyngor Sir Ddinbych i'w hysbysu bod y Cyngor yn croesawu'r dull

hwn ac yn cefnogi cynnwys y ddogfen. Copi i'w anfon i gwmni PURE Residential and Commercial Ltd gan gyfeirio'n benodol at y datblygiad tai arfaethedig yn Llanfair DC.

## **267.2 Ceisiadau**

**267.2.1** Cais 20/2016/0868 – Adeiladu estyniadau i annedd – Faenol, Pentrecelyn – ystyriwyd gan y Cynghorwyr Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Steve Whipp a oedd yn llwyr gefnogi'r cais.

**267.2.2** Cais 20/2016/0943 – Adeiladu estyniad deulawr yn y cefn a estyniad i'r porth blaen – Coed Talwrn, Pentrecelyn – ystyriwyd gan y Cynghorwyr Dennis Edwards, John Pugh, Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Steve Whipp a oedd yn llwyr gefnogi'r cais.

**267.2.3** Cais 20/2016/0951 – Adeiladu sied newydd yn lle'r un sy'n bodoli eisoes ar gyfer storio ceir, tractorau, peiriannau ac offer at ddefnydd domestig ac amaethyddol – Melin y Coed, Llanfair DC – ystyriwyd gan y Cynghorwyr Dennis Edwards, Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Steve Whipp a oedd yn llwyr gefnogi'r cais.

PENDERFYNWYD – cadarnhau'r gweithredu gan y Cynghorwyr ar 267.2.1, 267.2.2 a 267.2.3.

**267.2.4** Cais 20/2016/0979 – Rhannu annedd yn ddwy annedd ynghyd ag addasiadau cysylltiedig, darparu dreif newydd a lle parcio/troi a gwaith cysylltiedig - Eyarth Hall, Llanfair D C.

PENDERFYNWYD – Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiadau ac roeddynt yn llwyr gefnogi'r cais, a ystyriwyd yn gais trwyadl a oedd yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol. Roedd yr adroddiadau gan yr ymgynghorydd cadwraeth yn gryno a pherthnasol. Teimlwyd y gallai'r cynnig hwn arbed nodwedd hanesyddol pwysig yn yr ardal.

## **267.3 Ymgynghori cyn cyflwyno cais**

**267.3.1** Ymgynghori cyn cyflwyno cais – Datblygiad Arfaethedig – Estyniad i Tan y Graig, Graigfechan – roedd y manylion wedi eu hanfon at y Cynghorwyr am eu sylwadau. Roedd y Cynghorwyr Dennis Edwards, Rosanne Jarvis, Jayne Mayers, Keith Mouldsdale, John Pugh, Medwen Roberts a Steve Whipp wedi mynegi eu cefnogaeth i'r cynnig ynghyd â'r awgrym y dylid gwneud yr estyniad yn fwy i gynnwys ystafell ymolchi ar gyfer unigolyn anabl. Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cynllun.

PENDERFYNWYD – cadarnhau'r gweithredu gan y Cynghorwyr.

**267.3.2** Ymgynghori cyn cyflwyno cais – Datblygiad Arfaethedig – 63 annedd ynghyd â manau agored a gwaith seilwaith yn cynnwys pibellau carthffosiaeth a ffyrdd newydd ar dir oddi ar Ffordd Wreccsam, Llanfair DC. Roedd cwmni Pure Residential and Commercial Ltd wedi hysbysu am ei fwrdd i wneud cais am ganiatâd cynllunio gan ddatgan y gellid gweld yr wybodaeth yn Llyfrgell Rhuthun a hefyd ar-lein ar y wefan. Gwnaed trefniadau hefyd i ddarparu cyfle i berchnogion a/neu breswylwyr y tir cyfagos ac ymgynghoreion cymunedol i gyfarfod â chynrychiolwyr Pure rhwng 2 a 6 o'r gloch brynhawn Mawrth, 25 Hydref 2016 i ganfod rhagor am y cynnig. Roedd copïau o'r cynlluniau a'r dogfennau cefnogi ar gael i'w gweld ymlaen llaw yn y Neuadd hefyd. Trefnwyd cynnal cyfarfod

arbennig o'r Cyngor Cymuned ar 25 Hydref 2016 i ystyried ymateb y Cyngor i'r datblygiad arfaethedig.

Lluniwyd ymateb drafft y Cyngor ers y cyfarfod a'i ddsbarthu i'r holl Gynghorwyr am eu sylwadau a'u mewnbwn. Y prif faterion sy'n peri pryder yw:

- [i] Diffyg integreiddio gyda'r pentref presennol – mae'r datblygiad arfaethedig ar wahân gyda'i fynedfa ei hun ar gyfer cerbydau a cherddwyr.
- [ii] Mae'r allanfa arfaethedig ar gyfer cerddwyr yn cael ei ystyried yn un sy'n achosi rhaniad 'ni a nhw' ac hefyd yn hynod o beryglus. Byddai'n rhaid i gerddwyr groesi'r A525 ddwywaith i fynd i'r pentref.
- [iii] Pryderon am fywyd gwyllt, ffensys a cholli coed wedi'u gwarchod.
- [iv] Ni fydd caniatâd i'r draenio dŵr arwyneb gael ei gysylltu i'r rhwydwaith pibellau carthffosiaeth.
- [v] Mae'r cynlluniau ar gyfer y chwe eiddo wedi'u dynodi fel tai fforddiadwy yn aneglur.

PENDERFYNWYD –

- [a] cymeradwyo'r ymateb drafft a gyflwynwyd yn y Cyfarfod a'i e-bostio at asiant y datblygwyr erbyn y dyddiad cau, sef 3 Tachwedd 2016.
- [b] anfon copïau o llythyrau a dderbyniwyd gan y Cyngor oddi wrth drigolion lleol [A Edwards, P Bennett-Lloyd a'r Cynghorydd Steve Whipp] at yr asiant yr un pryd.
- [c] anfon copi o ymateb y Cyngor, ynghyd ag ymatebion ysgrifenedig gan drigolion lleol, at Mr Graham Boase, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych, yn tynnu sylw at y prif bryderon a fynegwyd.
- [ch] anfon datganiad i'r wasg i'r Denbighshire Free Press yn tynnu sylw at y pryderon y cyfeiriwyd atynt uchod.

## **268 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD**

### **268.1 Cofeb Rhyfel Llanfair DC – Gwaith adferol**

Adroddod y Cadeirydd bod cynlluniau wedi'u llunio ac y disgwylir tri dyfynbris ar gyfer dau gynllun, un yn cynnwys rheiliau ac un gyda bolardiau a chadwynau. Derbyniwyd manylion am grant gan yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel a all ddyfarnu grant o hyd at 75% o'r gost, hyd at uchafswm o £30,000. Byddai'n rhaid cynnwys swm tuag at y gost yn y gyllideb praesept ar gyfer 2017/18.

PENDERFYNWYD –

- [a] cymryd camau i ymgeisio am grant gan yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel.
- [b] cynnwys swm o £10,000 yn y gyllideb praesept ar gyfer 2017/18 a
- [c] ystyried gwneud cais am fenthyciad i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfanswm y gost.

### **268.2 Grŵp Gwyllo Cyflymder Llanfair a Graigfechan**

Dosbarthodd y Cynghorydd Steve Whipp adroddiad ar weithgareddau'r grŵp yn ystod Hydref 2016, sef bod 10 o drigolion wedi derbyn hyfforddiant i gynnal arolygon ffyrdd; cynhaliwyd 10 arolwg; cyflwynwyd llythyrau rhybudd i'r holl dramgwyddwyr gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cadarnhau y bydd Cwnstabiliaid Arbennig gyda'r timau gwyllo cyflymder yn y dyfodol sy'n golygu y bydd gwys am oryrru yn cael eu cyflwyno, yn hytrach na llythyrau rhybudd.

PENDERFYNWYD – derbyn yr adroddiad a rhoi copi ar wefan y Cyngor.

## **Rhan 2 – Eitemau Cyfrinachol – Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd**

## **269 MATERION CYFLOGAETH**

### **269.1 Cytundeb y Clerc – Cyfnod Prawf**

Hysbyswyd yr aelodau fod y Clerc wedi bod yn y swydd am bedwar mis, a thrwy hynny wedi cwblhau ei chyfnod prawf.

PENDERFYNWYD – cadarnhau parhad cyflogaeth y Clerc.

### **269.2 Cytundeb y Clerc – Adolygu'r oriau gwaith yn y cytundeb**

Hysbyswyd yr aelodau fod y Clerc yn cadw cofnod manwl o'i gwaith yn dangos ei bod wedi gweithio 123 o oriau rhwng 1 Gorffennaf a 31 Hydref 2016. Mae hyn yn 35 awr ychwanegol i'r oriau yn y cytundeb gwaith, sef 88 awr [22 awr y mis], oherwydd sefydlu systemau/ffeiliau newydd ar ôl dechrau ar y swydd a gwaith yn gysylltiedig â galw dau gyfarfod Cyngor ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn.

Gofynnodd y Clerc i'r aelodau ystyried newid oriau'r cytundeb gwaith o 264 i 300 awr y flwyddyn [25 awr y mis].

Cyfeiriwyd at benderfyniad y Cyngor a basiwyd ym mis Mawrth 2016 i dalu rhagflaenydd y Clerc am weithio 300 awr y flwyddyn gan fod yr aelodau'n cytuno fod ei lwyth gwaith wedi cynyddu'r sylweddol ers ei benodi.

Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost, ar sail 25 awr y mis a thalu am y 35 awr ychwanegol a weithiwyd [1 Gorffennaf – 31 Hydref] am y cyfnod 1 Gorffennaf 2016 i 31 Mawrth 2017, yn £3,023.80 ynghyd â thâl gwasanaeth cyflogres. Cyfradd cyfredol y cyflog yw £11.63 yr awr.

PENDERFYNWYD

[a] newid oriau gwaith y Clerc o 264 awr i 300 awr y flwyddyn.

[b] cymeradwyo taliad am y 35 awr ychwanegol a weithiwyd rhwng 1 Gorffennaf a 31 Hydref 2016 [£407.05]

[c] addasu cyfanswm y gyllideb cyflog yn unol â hyn, hynny yw, £3,023.80 [1 Gorffennaf 2016 – 31 Mawrth 2017]

### **269.3 Pensiwn a Chofrestru Awtomatig**

Hysbyswyd yr aelodau y bydd rhai i bob Cyngor weithredu yn achos pob cyflogai rhwng 16 a 75 oed yn 2020. Nodwyd.

## **270 MATERION CYLLID**

### **270.1 Archwiliad – Cwblhau'r Archwiliad am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016**

Adroddwyd bod BDO, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, wedi cwblhau'r archwiliad uchod. Roedd copiâu'r datganiad blynyddol a'r adroddiad ar y materion yn deillio o'r archwiliad wedi'u hanfon at Gynghorwyr gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi trefnu i'r hysbysiad cwblhau'r archwiliad gael ei arddangos ar wefan y Cyngor a'r hysbysfyrdau am 14 diwrnod. Gwnaed hyn cyn 30 Medi 2016. Mae'r Clerc wedi cael y copi diweddaraf o'r Canllaw i Ymarferwyr [Llywodraethu ac atebolrwydd i Gynghorau Lleol] [Cymru]. Mae'r cyhoeddiad hwn yn arweiniad i'r arferion cyfrifyddu y dylai cynghorau eu dilyn ac yn nodi'r safon priodol ar gyfer adroddiadau ariannol i'r holl gynghorau lleol yng Nghymru.

Bydd archwiliad 2016/17 yn canolbwyntio ar: [a] Cyflogres / Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi – gan fod Clercod yn swyddogion, mae'n rhaid i Gynghorau weithredu system Talu wrth Ennill a chynhyrchu tystiolaeth o gofrestru a datganiadau Talu wrth Ennill ar gyfer 2016-17. [b] Rhaid i Gynghorau ddangos y mabwysiadwyd Cod Ymddygiad a bod tystiolaeth bod aelodau wedi llofnodi i ymrwymo iddo.

Cadarnhaodd yr aelodau fod y datganiadau cyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol wedi'u cymeradwyo ar 3 Awst 2016 [cofnod 246]. Nododd yr aelodau y saith mater y tynnwyd sylw atynt gan yr archwilydd allanol a

PHENDERFYNWYD gweithredu fel a ganlyn gan y Cyngor a'r Clerc fel bo'n ofynnol i ymdrin â'r materion a godwyd.

Bod y Cyngor yn sicrhau

[1] y paratoir cyllideb ddigonol i gefnogi ei broses gwneud penderfyniadau ac i gynorthwyo yn y broses rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn. Dylid ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau bod y datganiadau cyfrifon yn cydbwysu.

[2] cynnal adolygiad rheolaidd o'r gyllideb praesept yn erbyn y gwir incwm a gwariant a'i gofnodi i leihau'r risg o orwario. Y Clerc i baratoi datganiadau ariannol bob deufis yn unol â'r canllawiau arferion da.

[3] bod yr archwilydd mewnol yn dogfennu'r gwaith a wnaed fel y gellir asesu digonolrwydd ac effeithiolrwydd yr archwiliad mewnol fel rhan o'i weithdrefnau rheoli mewnol. Y Clerc i gynhyrchu llythyr penodi ar gyfer archwilydd mewnol fel a nodir yn [6] isod.

[4] bod y cyfrifon blynyddol yn cael eu hardystio gan yr Aelodau, mewn cyfarfod o'r holl gynghorwyr cyn 30 Mehefin, yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae cyfarfod ychwanegol yn nechrau Mehefin 2017 wedi ei gynnwys eisoes, rhag ofn y bydd angen cynnal cyfarfod o'r fath.

[5] nodi'r holl asedau ar eu gwerth cost. Roedd yr asedau sefydlog wedi'u dangos ar eu gwerth yswiriant yn flaenorol yn hytrach na chost eu prynu. Ni ddisgwylir i werth cost asedau newid onibai bod ased yn cael ei waredu neu ei ddiddymu.

[6] bod y llythyr penodi'r archwilydd mewnol yn cynnwys rhagor o fanylion. Dylai'r llythyr penodi gytuno ar ddisgwyliadau'r naill ochr cyn dechrau'r penodiad am y flwyddyn i ddod, i gynnwys:

[a] rolau a chyfrifoldebau

[b] cynllunio, sgôp ac amseriad yr archwiliad

[c] gofynion adroddiadau

[ch] sicrwydd ynghylch annibyniaeth a chymhwysedd

[d] gweld gwybodaeth a chysylltu ag Aelodau a swyddogion

[dd] tâl.

[7] bod yr holl flychau perthnasol wedi'u llenwi a'u cwblhau cyn cyflwyno'r ffurflen cyfrifon blynyddol erbyn 30 Mehefin, yn cynnwys cyfeirnod cofnod a dyddiad cymeradwyo'r datganiadau cyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol.

## **270.2 Penodi Archwilydd Mewnol**

PENDERFYNWYD – bod y Clerc yn cael dyfynbrisiau gan Mr Gwyn Davies, JPH Business Services Ltd a S P Kell, Cyfrifwyr Siartredig, am ddarparu gwasanaeth archwilydd mewnol.

## **270.3 Crynodeb Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill i 31 Hydref 2016**

Cyflwynodd y Clerc ddatganiad ariannol ar gyfer y Cyfrifon Cyffredinol a Busnes yn cwmpasu'r cyfnod hwn. Paratowyd y datganiad ar ffurf a oedd yn unol ag argymhellion gan yr archwilydd allanol, hynny yw, fel bod y Cyngor yn medru adolygu ei gyllideb praesent yn erbyn y gwir incwm a gwariant er mwyn lleihau'r posibilrwydd o wynebu'r risg o orwario.

Cynghorwyd yr aelodau bod

[a] Nifer o eitemau gwariant, er eu bod wedi eu cymeradwyo yn ystod 2015/16 heb eu cynnwys yn y gyllideb praesept 2016/17

[b] Rhai penawdau cyllideb yn debygol o fod yn annigonol, megis costau cyflog a chostau cyfieithu

[c] Y balans yn y banc ar 31 Hydref yn £1,669.16 yn y cyfrif cyfredol a £1,022.34 yn y cyfrif busnes yn rhoi cyfanswm o £2,691.50 o gronfeydd ar gael ar 31 Hydref 2016. Dylid clustnodi £1,600 o hwn ar gyfer etholiadau'r Cyngor ym Mai 2017, a byddai derbyn y taliad praesept olaf am y flwyddyn o £2,667.00 ym mis Rhagfyr yn gadael cyllid digonol i dalu'r ymrwymadau sy'n bodoli.

PENDERFYNWYD

[a] derbyn y datganiad ariannol a nodi sylwadau'r Clerc

[b] bod datganiadau ariannol yn y dyfodol yn cynnwys colofn ychwanegol ar gyfer amcangyfrif y gwariant erbyn diwedd y flwyddyn.

## **270.4 Praesept 2017/2018**

Cyflwynwyd – cyllideb praesept ddrafft i'w thrafod a phenderfynu arni. Roedd y tabl yn cynnwys cymariaethau â'r cyllidebau praesept a bennwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Y prif eitem ychwanegol yw cyllid tuag at gost atgyweirio'r gofeb rhyfel yn Llanfair DC – £10,000 [taliadau benthyciad]. Craffodd yr aelodau'n fanwl ar bob eitem a

PHENDERFYNWYD

[a] cymeradwyo cyllideb praesept o £18,934 am y flwyddyn ariannol 2016/17 a

[b] gwneud cais am fenthyciad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfanswm cost atgyweirio'r gofeb rhyfel yn Llanfair DC.

## **270.5 Talu Cyfrifon / Anfonebau**

**270.5.1 AVOW** – Cyflog y Clerc a thaliadau cyflogres ym mis Hydref, £255.86 a £2.00 yn ôl eu trefn.

**270.5.2 Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC)** – Llyfryn Rheoli Risg, pris £5.91.

**270.5.3 Sandra Williams** – Gwasanaeth cyfieithu – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Awst 2016.

PENDERFYNWYD – gwneud taliadau fel a ganlyn:

270.5.1 £257.86



270.5.2 £5.91  
270.5.3 £125.58

## **270.6 Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

Derbyniwyd y ceisiadau isod:

**270.6.1** Grŵp Gwyllo Cyflymder Cymunedol – 2 wn cyflymder ar gost o £198.00

**270.6.2** Urdd Gobaith Cymru – cymorth ariannol i gynorthwyo'r mudiad gyda'i waith â phobl ifanc yn Sir Ddinbych

**270.6.3** Cangen Rhuthun y Lleng Brydeinig – Apêl Pabi Coch [£200 y llynedd]

**270.6.4** Hosbis Tŷ'r Eos – tuag at ddarpariaeth gofal ataliol i bobl a chefnogaeth i'w teuluoedd a'u gofalwyr

**270.6.5** Eisteddfod Gydwladol Gerddorol Llangollen – tuag at gynnal yr Eisteddfod yn 2017

**2706.6.** Nyrsys Marie Curie – i gefnogi gwasanaeth lleol.

## **PENDERFYNWYD**

[a] y dylid ystyried ceisiadau unwaith y flwyddyn ym mis Tachwedd yn arferol – ac eithrio ysgolion.

[b] gwneud taliadau fel a ganlyn:

270.6.1 £198.00

270.6.2 gohirio'r penderfyniad tan Ionawr 2017

270.6.3 £200.00

270.6.4 gohirio'r penderfyniad tan Ionawr 2017

270.6.5 gohirio'r penderfyniad tan Ionawr 2017

270.6.6 gohirio'r penderfyniad tan Ionawr 2017

## **271 Cofrestr Asedau ac Aseidiadau Risg**

Hysbyswyd yr aelodau fod angen diweddarau'r Gofrestr Asedau. Y manylion cyfredol fel a ganlyn:

Disgrifiad	Cost	Yswiriant	Lleoliad
Cofeb Rhyfel		£47,744.08	Llanfair DC
Dodrefn stryd: Arosfan bws 3 hysbysfwrdd		£ 7,503.01	Llanfair DC a Graigfechan Llanfair DC, Graigfechan a Phentrecelyn
Giatiau a ffensys		£ 7,087.26	Wal y Fynwent, Llanfair DC
Cyfrifiadur ac argraffydd			Cartref y Clerc
Cwpwrdd metel	£114.00		Neuadd Eleanor, Llanfair DC
2 wn cyflymder	£198.00		Y Cynghorydd Steve Whipp

## **PENDERFYNWYD –**

[a] cymryd camau i nodi a diweddarau'r prif risgiau sy'n wynebu'r Cyngor, yn cynnwys adolygiad o'r trefniadau cynnal a chadw rheolaidd o ran yr asedau ffisegol.

[b] bod yr holl Gynghorwyr yn cynorthwyo i gynnal asesiad risg, i'w gydlynu gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Cytunodd y Cadeirydd i ddsbarthu templed a fyddai'n briodol at ddefnydd y Cyngor.

## **272 UNRHYW FATER ARALL**

### **272.1 Sul y Cofio**

PENDERFYNWYD – bod y Clerc yn trefnu i swyddog heddlu cymunedol fod yn bresennol i reoli'r traffig yn ystod y gwasanaeth ar ddydd Sul, 13 Tachwedd 2016 yn Llanfair DC.

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi gorffen am 10pm.

## **273 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL – DYDD MERCHER 4 IONAWR 2017 DYDD MERCHER 1 MAWRTH 2017**

\_\_\_\_\_  
CADEIRYDD

\_\_\_\_\_  
DYDDIAD

## **CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC nos Fercher, 14 Rhagfyr 2016 am 6.00pm. Trefnwyd y cyfarfod hwn i ystyried ail ymateb y Cyngor i ddatblygiad arfaethedig 63 o dai ar dir oddi ar Ffordd Wreccsam, Llanfair DC gan PURE Residential & Commercial Limited, New Vision House, Parc Busnes Gweledigaeth Newydd, Ffordd Glascoed, Llanellwy LL17 0LP. Rhaid cyflwyno sylwadau am y cais i Adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych erbyn dydd Gwener, 23 Rhagfyr 2016.

**PRESENNOL** – Y Cyngorwyr John Pugh [Cadeirydd], Steve Whipp [Is-gadeirydd], David Baker, Dennis Edwards, Tim Faire, Jayne Mayers, Keith Mouldsdales a Medwen Roberts, ynghyd ag Eirwen Godden, Clerc.

**HEFYD YN BRESENNOL** – Ugain o drigolion ynghyd â'r Cynghorydd Hugh H Evans OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych.

**YMDDIHEURIADAU** – Y Cyngorwyr Wini Davies a Rosanne Jarvis.

### **274 Cais Cynllunio 20/2016/1137**

Croesawodd y Cynghorydd John Pugh, Cadeirydd y Cyngor Cymuned, bawb i'r cyfarfod gan esbonio bod hwn yn gyfle i drigolion lleol ddweud eu dweud, a fyddai'n hysbysu ymateb y Cyngor ar y cais cynllunio llawn a gyflwynwyd. Roedd Uwch Swyddog Cynllunio wedi cytuno i gyfarfod â chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned unwaith y bo'r ymatebion wedi'u llunio. Aeth y Cynghorydd Pugh ymlaen i hwyluso trafodaeth ar sail cwestiwn ac ateb.

Nodwyd bod cyfarfod wedi'i drefnu gan ddau o'r trigolion lleol ar 8 Rhagfyr 2016 i roi cyfle i drigolion pryderus drafod cynigion y datblygiad. Roedd deugain o bobl yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw.

### **274.1 Cwestiynau a/neu Sylwadau gan drigolion ac ymatebion gan y Cadeirydd**

[i] Gwrthwynebiad – gwnaeth dau o'r trigolion yng nghyfarfod y Cyngor ei safbwynt yn glir eu bod yn gwrthwynebu'r datblygiad ar sail seilwaith annigonol, dim tystiolaeth bod angen mwy o dai ac y byddai'n creu mwy o draffig, cerddwyr a beicwyr. Awgrymwyd y gellid lleoli'r datblygiad tai ar safle'r hen ysgol unwaith y bo'r ysgol newydd wedi'i hadeiladu.

[ii] Angen am dai – comisiynwyd adroddiad beth amser yn ôl yng nghyswllt datblygiad o 15 o dai, na wnaeth fwrw ymlaen. Teimlwyd bod angen arolwg wedi'i ddiweddarau yn awr. Mae angen tai newydd ond mae gormod o dai ar y safle arfaethedig, nid oes cysylltiad â'r pentref sy'n bodoli eisoes a dim cysylltiadau amlwg i gerddwyr rhwng y safleoedd. Mae ystod o wahanol fathau o eiddo ar y safle, ond mae angen gwybod beth yw'r galw'n lleol am y gwahanol fathau o dai, er enghraifft, teuluoedd angen tai tair ystafell wely. Nodwyd y dylai'r datblygwr fod wedi gwneud peth ymchwil ynghylch hyn.

Gofynnodd un o'r trigolion a allai'r datblygwr adeiladu tai drytach a pheidio â darparu tai rhatach. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd hyn yn bosibl, mae'n rhaid cynnig amrywiaeth fel y dangosir yn y cynnig.

[iii] Tai fforddiadwy – gofynnwyd pwy fyddai'n rheoli'r rhain, yn dyrannu'r cartrefi, a fyddent yn cael eu gosod i bobl leol ac a allai pobl leol eu prynu. Mae'r diffiniad tai fforddiadwy yn gymhleth, ond mae'r rheol 30% wedi'i ostwng i 10% ar gyfer datblygiadau tai. Os cynhwysir mwy mewn cynllun yna gallai'r Awdurdod Lleol gael y dewis o ddefnyddio cyllid cymudol gan y datblygwr i alluogi hyn i ddigwydd. Mae'n rhaid i dai fforddiadwy gael eu rheoli gan landlordiaid cymdeithasol, p'un ai'r Awdurdod Lleol neu Gymdeithas Dai, ac efallai fod ganddynt bolisiau gwahanol y mae'n rhaid eu dilyn. Bydd gan y ddau restr aros ac yn ddelfrydol dylid rhoi blaenoriaeth i bobl o'r ardal yn ôl eu angen tai, yn hytrach na phobl o fannau eraill.

[iv] Materion Dyluniad – mynegodd un o'r trigolion ei farn nad yw toeon gwastad yn cyd-fynd ag eiddo eraill yn y pentref. Barn arall a fynegwyd yw nad yw'r cynllunwyr yn ystyried y sylwadau a wnaed eisoes o ran dyluniad gwael yn gyffredinol, nad yw'n cyd-fynd â llawer o agweddau, ac mai prin ei fod yn briodol o gwbl. Er enghraifft, dylai ansawdd y blaen fod yn well a chyd-fynd yn well â'r ardal. Nodwyd y byddai'r datblygwr yn adeiladu yn ôl y pris, beth bynnag sy'n digwydd.

[v] Safle adwerthu – holwyd am y posibilrwydd o safle adwerthu ar y safle. Roedd siop yn y pentref yn y gorffennol. Cyfeiriwyd at siop gymunedol lewyrchus yn Mhwllglas ond mae'r fenter yn cael ei chynnal gan wirfoddolwyr ac mae angen sicrhau grantiau. Rhaid i'r gwirfoddolwyr fod yn gwbl ymroddedig er mwyn i'r fenter fod yn llwyddiannus.

[vi] Traffig – mae pryder y bydd y mynediad i gerbydau i ac oddi ar yr A525 yn unig – dylid cael mynediad amgen. Mae arbenigwyr yr Awdurdod Lleol yn datgan nad yw'r ffordd yn rhy beryglus. Bydd y traffig yn cynyddu gan ei bod yn brif ffordd heb unrhyw reolaeth drosti, ond gellid cyflwyno camau i reoli cyflymder. Dylid gwneud terfyn cyflymder 20 milltir yr awr yn orfodol. Mae'r Cyngor Cymuned wedi ymgyrchu'n galed dros hyn yn y gorffennol. Bydd mynediad i gerddwyr trwy'r ystad yn effeithio ar y trigolion hynny, ond mater i'r datblygwr fyddai datrys unrhyw broblemau'n ymwneud â mynediad.

[vii] Seilwaith / Ysgol – gofynnwyd y cwestiwn a yw'r datblygiad arfaethedig yn ddichonadwy i'r ysgol. Byddai'n rhaid i'r datblygwr ystyried y capasiti ychwanegol yn ystod

y cam dylunio o ran, er enghraifft, ysgol newydd a chyfleusterau carthffosiaeth. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr Arweinydd fod datblygiad yr ysgol a'r datblygiad tai presennol yn faterion ar wahân. Mae'r cynnig ar gyfer ysgol newydd yn parhau, cyfrifwyd y capasiti sy'n ofynnol a chynhwyswyd y tir yn y Cynllun Datblygu Lleol. Disgwylir i'r Awdurdod Lleol adeiladau 7,500 o gartrefi newydd yn Sir Ddinbych.

Mae'r ysgol bresennol wedi'i hadeiladu ar dir sy'n eiddo i'r Eglwys yng Nghymru y mae'n rhaid ei werthu am bris masnachol.

[viii] Tanciau nwy – dywedodd un o'r trigolion y byddai'n well i'r pentref gael ei gysylltu â'r brif bibell nwy ddim ond hanner milltir i ffwrdd, ac y byddai hyn o fudd i'r ysgol hefyd. Ystyriwyd eu bod yn colli cyfle yma, gan ychwanegu y gallai trigolion fod yn fodlon talu. Teimlwyd y gallai'r datblygwr ychwanegu'r gost i'r datblygiad hwn yn hawdd.

Dywedodd y Cadeirydd fod y mater hwn wedi'i godi rhyw bymtheg mlynedd yn ôl pan gyflwynodd Pentrecelyn gais am gyflenwad nwy a charthffosiaeth, ond hysbyswyd y trigolion y byddai'n rhaid iddynt dalu am y gwasanaethau hyn eu hunain. Mae'n rhaid i gost o'r fath fod yn ddichonadwy i'r datblygwr. Fodd bynnag, yn y datblygiad newydd bydd cost cynnal a chadw draeniau a thanciau nwy yn gyfrifoldeb y datblygwr. Os yw'r datblygwyr yn rhoi'r gorau i fasnachu mae bond yn bodoli i dalu'r gost. Bydd y pwynt ynghylch cysylltu â'r prif gyflenwad nwy yn cael ei ychwanegu at y rhestr i'w ystyried gan y cynllunwyr.

[ix] Gwagle agored - mae pryder am leoliad y gwagle agored ar y safle, pa mor agos yw'r gwagle at y brif ffordd ac a yw'n ddiogel ar gyfer gemau pêl. Atgoffwyd pawb bod angen i'r gwagle agored fod yn hygyrch i bawb yn y gymuned, yn cynnwys plant. Awgrymwyd symud yr ardal gwagle agored i leoliad mwy canolog ar y safle, gyda thai yn edrych dros yr ardal. Serch hynny, mae angen gosod yr ardal ddraenio fel y dangosir ar y cynlluniau. Bydd gan yr ysgol newydd ei gwagle cymunedol ei hun hefyd fel adnodd ychwanegol.

[x] Barn trigolion – gan fod mwyafrif y trigolion yn denantiaid mynegwyd pryder y byddai'r Awdurdod Lleol yn anwybyddu eu barn. Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad ar yr ymgynghoriad gan PURE, cymal 3.1 – nid yw'n achos o'r ymgeisydd yn diystyrru'r sylwadau, yn hytrach, yn dilyn ystyried, eu barn yw nad yw diwygio'r cynlluniau yn briodol dan yr amgylchiadau. Dywedodd y Cadeirydd fod hyn yn dweud y byddant yn anwybyddu unrhyw beth nad ydynt yn cytuno ag ef, ym marn y Cadeirydd. Bwriedir codi'r mater hwn gyda'r Uwch Swyddog Cynllunio.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd penderfynu sut i symud ymlaen, er enghraifft, ar y sail bod graddfa'r datblygiad yn ormodol, bod angen ymdrin â'r mynediad a'r cysylltiadau i gerddwyr. Rhaid ymdrin ag unrhyw agweddau technegol, er enghraifft, draeniad, tanciau, carthffosiaeth, a rhaid cael cadarnhau na fydd llifogydd yn digwydd.

Gwnaeth yr Arweinydd sylw ei bod yn bwysig nad yw pobl leol mewn sefyllfa waeth na'u sefyllfa bresennol. Rhaid iddynt ystyried beth wnaiff wneud gwahaniaeth, beth fydd y mater allweddol a fydd yn atal ffyrdd peryglus ac yn eu gwneud yn ddiogel. Ymhellach, rhaid iddynt benderfynu beth y gallant ac na allant ei gael o'r datblygiad.

[xi] Amserlen – y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 23 Rhagfyr 2016. Wedi hynny gallai'r cais gael ei ystyried gan aelodau'r Pwyllgor Cynllunio tuag at ganol Ionawr 2017. **[NODYN AR GYFER Y COFNODION – Ers y cyfarfod derbyniodd y Cyngor Cymuned wybodaeth ar 16 Rhagfyr 2016 fod y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion wedi'i newid i 11 Ionawr 2017 gan yr Adran Cynllunio a'r cynharaf y gallai'r cynigion datblygu fynd gerbron y Pwyllgor Cynllunio fyddai Chwefror 2017].**

#### **274.2 Casgliad a Chonsensws –**

[a] Mae'r datblygiad arfaethedig yn rhy fawr, mae'r trigolion am gael ymdeimlad pentref nid tref

[b] Rhaid cael mynediad i gerddwyr i'r pentref ac eithrio ar hyd yr A525

[c] Mae angen ymdrin ag ansawdd y dyluniad a materion technegol o ran seilwaith, nwy, dŵr a draeniad

[ch] Rhaid i dai fforddiadwy gyd-fynd â'r galw yn y gymuned

[d] Yr amgylchedd naturiol a bywyd gwyllt lleol – ni roddwyd digon o ystyriaeth i'r sylwadau a gyflwynwyd eisoes. Os oes angen cynefin penodol ar gyfer rhywogaethau penodol ar sail tystiolaeth bydd angen atgoffa'r Awdurdod Lleol am hyn

[dd] Dylid adleoli'r gwagle agored i ganol y safle, oddi wrth yr A525.

Gan nad oedd rhagor o fusnes i'w drafod diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a chyhoeddi bod y cyfarfod wedi gorffen am 7.10 pm.

#### **275 DYDDIAD CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Dydd Mercher 4 Ionawr 2017**

\_\_\_\_\_ CADEIRYDD

\_\_\_\_\_ DYDDIAD

#### **CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC, nos Fercher, 4 Ionawr 2017 am 7.00 pm.

**PRESENNOL** – Y Cyngorwyr John Pugh [Cadeirydd], Steve Whipp [Is-gadeirydd], David Baker, Wini Davies, Dennis Edwards, Tim Faire, Keith Mouldsdale a Medwen Roberts. Eirwen Godden, Clerc.

**HEFYD YN BRESENNOL** - 12 o drigolion, y Cynghorydd Hugh H Evans OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, ynghyd â Marc Musgrave, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

#### **Rhan 1**

#### **YMDDIHEURIADAU –**

Y Cyngorwyr Jayne Mayers a Rosanne Jarvis.

#### **276 DATGAN BUDDIANNAU**

Y Cyngorwyr John Pugh a Keith Mouldsdale [yng nghyswllt ceisiadau am gymorth ariannol gan Bwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor – mae'r ddau Gynghorydd yn ymddiriedolwyr].

## **277 COFNODION**

Cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 2 Tachwedd ac 14 Rhagfyr 2016.

PENDERFYNWYD – Cymeradwywyd y cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## **278 MATERION YN CODI**

**236.4.2** Ysgol Pentrecelyn – Llythyr yn diolch am y grant £100 a ddyfarnwyd i dalu am gludo disgyblion yn yr ardal.

### **243.2 Carafan yn Erw Fair, Llanfair D C**

Adroddwyd bod hysbysiad rhybudd gorfodaeth wedi'i gyflwyno i'r perchennog tir i un ai gael gwared ar y garafan neu wneud cais am ganiatâd cynllunio. Ni dderbyniwyd cais a nawr byddai'r Awdurdod Cynllunio yn mynd trwy'r broses orfodaeth. Gallai hyn gymryd amser i'w weithredu.

## **279 GOHEBIAETH**

**Derbyniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych –**

**[a] 'Sgript' canllawiau datgan buddiannau** i'w ddefnyddio gan yr holl Gyngorau Tref a Chymuned, i'w ddarllen ar ddechrau pob cyfarfod, os dymunir.

**[b] Cyngerdd Elusennol y Cadeirydd, 26 Chwefror 2017** yn Eglwys y Santes Fair, Rhuddlan – 7 pm. Pris tocyn, £10 yr un.

**[c] Etholiadau Cyngorau Tref a Chymuned Mai 2017** – Cyhoeddir yr hysbysiad etholiad ar 15 Mawrth 2017, a bydd gan ymgeiswyr tan 4 o'r gloch y prynhawn ar 4 Ebrill 2017 i gyflwyno papurau enwebu. Gofynnir am gadarnhau nifer y pecynnau enwebu Cymraeg a Saesneg i'w dosbarthu i Gyngorwyr presennol. Bydd y pecynnau enwebu a'r cofrestrau etholiadol perthnasol yn cael eu dosbarthu yn ystod yr wythnos yn dechrau 6 Mawrth 2017.

**[ch] Sgwrs y Sir – Pa ddyheadau ddylem ni anelu atynt?** Mae pawb yn y sir yn cael eu hannog i ateb arolwg byr ynghylch chwe dyhead ar restr fer i alluogi'r Cyngor i ganolbwyntio ar y meysydd cywir yn ei Gynllun Corfforaethol nesaf. Cyfrifoldeb y Cyngor newydd a etholir ym mis Mai 2017 fydd cytuno'n derfynol ar y dyheadau a'r camau gweithredu i'w cyflawni. PENDERFYNWYD – cefnogi'r egwyddorion a sicrhau eu bod yn cyd-fynd gyda chynllun cymuned drafft y Cyngor Cymuned a luniwyd ym mis Medi 2016.

**[d] Polisi Masnachu ar y Stryd** – Gofynnir i aelodau Cyngorau Dinas, Tref a Chymuned wneud sylwadau a chynnig unrhyw newidiadau, er enghraifft: "A oes unrhyw leoliadau yn eich Dinas/Tref/Pentref na ddylid eu defnyddio ar gyfer Masnachu ar y Stryd yn eich barn chi, neu a ydych chi o'r farn bod lleoliad a fyddai'n briodol i'w defnyddio fel lleoliadau ar gyfer digwyddiadau cymunedol yn unig?". Nodwyd y cynnwys.

## **280 MATERION CYNLLUNIO**

**280.1 Cais 20/2016/1137** – Datblygiad arfaethedig 63 o dai ar dir oddi ar Ffordd Wreccsam, Llanfair DC gan gwmni Pure Residential & Commercial Limited. Anfonwyd copi o ymateb drafft at y Cyngorwyr cyn y cyfarfod. Cyflwynodd y

Cynghorydd John Pugh, Cadeirydd, ddiweddiariad yn hysbysu'r cyfarfod y cynhaliwyd trafodaethau cadarnhaol gyda Sarah Stubbs, Uwch Swyddog Cynllunio. Derbyniwyd gwybodaeth ynghylch anghenion tai yn Llanfair DC, bydd pryderon amgylcheddol yn cael eu cyfleu i Swyddog Amgylcheddol y Cyngor ond ni fydd arolwg archeolegol yn cael ei gynnal gan ei bod yn ymddangos nad oes tystiolaeth mwyach i gadarnhau presenoldeb olion Rhufeinig yn yr ardal. Roedd ymateb y Cyngor Cymuned yn pwysleisio pryderon ynghylch [a] maint y datblygiad [b] mynediad/cysylltiadau – yr angen am gyswllt i gerddwyr yn benodol [c] ansawdd y dyluniad [ch] nwy – prif gyflenwad yn fwyaf dymunol [d] draenio yn cynnwys draenio dŵr a pherygl llifogydd [dd] tai fforddiadwy [e] yr amgylchedd naturiol a bywyd gwylt lleol a [f] lleoliad y gwagle agored. Bydd copi o'r ymateb terfynol i'w weld ar wefan y Cyngor Cymuned a'r hysbysfwrdd yn Llanfair. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 11 Ionawr 2017.

Gwnaeth trigolyn sylw bod dau wahanol gynllun ar gyfer y gwrychoedd sy'n creu dryswch, cyfeiriodd at adroddiad traffig a gofynnodd pwy sy'n talu am symud yr arwydd 30 milltir yr awr, ac adroddodd y byddai'r Amgueddfa Rhyfel Ymerodrol yn rhestru'r coed ar hyd ymyl y ffordd.

**280.2 Cais 20/2016/1242** – Datblygu 0.34 hectar o dir trwy adeiladu 9 annedd a chreu mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr [Cais Amlinellol] – Tir wrth ymyl Paradwys, Graigfechan, Ruthin.

NODYN AR GYFER Y COFNODION – Ymgynghorwyd â'r Cynghorwyr eto yn dilyn y cyfarfod a'r consensws cyffredinol oedd bod y Cyngor cymuned yn cefnogi'r cais ac y dylid anfon ymateb i Adran Gynllunio Cyngor Sir Ddinbych i nodi'r pwyntiau isod:

“1 Ni chyfeirir at ddarparu tai fforddiadwy fel rhan o'r cynllun, ond mae'r datganiad cynllunio yn crybwyll unedau 2 i 4 gwely. Gan mai cais amlinellol yw hwn nid oes manylion am yr unedau arfaethedig. Awgrymir, gan y cynigir adeiladu 9 annedd, y gellir disgwyl un tŷ fforddiadwy. Efallai y bydd yr Awdurdod Cynllunio yn dymuno ystyried gofyn am nawfed rhan o ddeg o gost cartref fforddiadwy fel swm cymudol. Byddai'r Cyngor Cymuned yn croesawu eglurder o ran bwriad y datblygwr unwaith y cyflwynir cais manwl a ph'un ai oes gan weddill y safle 'gymeradwyaeth cynllunio tybiedig'. Os felly, a fydd tai fforddiadwy yn cael eu cyfrifo ar gyfer y safle cyfan? Mae'r Cyngor Cymuned hefyd am gael sicrwydd bod gan yr uned garthffosiaeth gapasiti digonol.

2 Mae'n hysbys bod ffrwd/ffynnon yn bodoli ar y safle arfaethedig sy'n ffynhonnell dŵr i eiddo yn y cyffiniau. Byddai'r Cyngor Cymuned yn croesawu manylion ynghylch sut y bydd y cyflenwad dŵr yn cael ei ddiogelu yn ystod y cyfnod adeiladu ac wedi hynny fel rhan o'r cais manwl. Mae'n bosibl bod y ffynnon hon yn cael ei defnyddio gan eiddo islaw'r safle a dylai'r Awdurdod Cynllunio ymchwilio i hyn cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch y safle hwn.

3 Dylai'r trefniadau draenio'r safle ddilyn canllawiau Sir Ddinbych a chenedlaethol a dylid nodi manylion trin carthffosiaeth a dŵr arwyneb yn y cais manwl.

4 Bydd cynnydd mewn traffig trwedd yn achosi rhagor o bryder ond nodir bod yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori ynghylch mesurau arafu traffig ar gyfer Graigfechan

ar hyn o bryd. Mae rhai trigolion lleol wedi codi cwestiynau bod y pwynt mynediad i'r safle hanner ffordd i fyny'r allt. Ymddengys bod caniatâd cynllunio wedi'i wrthod yn y gorffennol am resymau diogelwch."

## **281 PRIFYRDD A'R AMGYLCHEDD**

### **281.1 Cynllun Arafu Traffig Arfaethedig - Graigfechan – Cyflwyniad gan Marc Musgrave, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ddinbych**

Roedd y Cyngor Sir wedi cynhyrchu Adroddiad Opsiynau Arafu Traffig Graigfechan [dyddiedig Gorffennaf 2016] gyda'r nod o weithredu system i leihau gor-yrru yn yr ardal. Roedd y dewisiadau i'w hystyried yn cynnwys twmpathau yn y ffordd; system gulhau – blaenoriaeth; gwella'r marciau ffyrdd; arwyddion sy'n ymateb i gyflymder cerbydau; clustogau arafu a goleuadau. Roedd yr adroddiad yn argymhell mai clustogau arafu [gyda gwaith uwchraddio'r goleuadau'n sylweddol] fyddai'r ffurf mwyaf llwyddiannus o arafu traffig o gofio cymeriad y ffordd a'r lefel defnydd gan gerbydau. Mae proses o ymgynghori â'r trigolion lleol yn digwydd ar hyn o bryd a bydd y Cyngor Cymuned yn cael ei hysbysu am y datblygiadau yn ystod y broses. Roedd Mr Musgrave wedi ymrwmo i gyflwyno ei argymhellion terfynol i gyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Mawrth.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol wedyn, atebwyd cwestiynau ac awgrymiadau ynghylch cerbydau Gan Bwyll, camerâu sefydlog, llinellau melyn dwbl, arwyddion rhag-rybudd, data damweiniau ac ati gan Marc Musgrave. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn aros yn eiddgar am ddadansoddiad yr astudiaeth a rhoi copi o'r adroddiad opsiynau ar y wefan. Derbyniwyd adroddiad ar lafar hefyd ynghylch gweithgareddau Grŵp Gwyllo Cyflymder Llanfair a Graigfechan hyd yma [Atodiad 1].

### **281.2 Mesurau Rheoli Cŵn mewn Mannau Cyhoeddus**

Mae'r Cyngor Sir yn dymuno cael barn pobl ynghylch gorchymyn arfaethedig i reoli cŵn mewn mannau cyhoeddus yn y sir. Cynigir y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus mewn ymateb uniongyrchol i gwynion ac adborth gan y cyhoedd ynghylch baw cŵn a phroblemau cysylltiedig. Byddai mabwysiadu'r Gorchymyn yn golygu na fyddai cŵn yn cael eu caniatáu mewn meysydd chwarae plant amgaaedig, traethau penodol, caeau chwaraeon, mynwentydd, eiddo addysg, canolfannau hamdden, lleiniau bowllo a chyrtau aml-weithgaredd wedi'u ffensio. PENDERFYNWYD – bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r egwyddorion yn y gorchymyn.

### **281.3 Plastig ar ganghennau uwchben ar yr A525 o Rhuthun i Lanfair DC**

Dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn neges e-bost gan drigolyn lleol yn tynnu sylw at berygl potensial plastig yn cael ei chwythu ar ffenestri blaen ceir gan y gwynt. Hysbyswyd Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am y mater.

### **281.4 Cyfleoedd Cyllido – Prosiectau / Blaenoriaethau Cymunedol**

Adroddwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer anfon ceisiadau i Lywodraeth Cymru am gyllid o'r Gronfa Ddatblygu Cymunedau Gwledig [Yr Amgylchedd a Chefn Gwlad] yw 31 Ionawr. Y prif feysydd i'w cefnogi yw – cynlluniau datblygu cymuned/pentref; buddsoddiadau mewn seilwaith ar raddfa fechan; buddsoddiad mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, yn cynnwys band eang a chynhwysiant digidol; gwella mynediad i wasanaethau; buddsoddi mewn seilwaith a gweithgareddau hamdden a



thwristiaeth i wella iechyd ac ansawdd bywyd. Adroddwyd y gallai Cadwyn Clwyd ddarparu cymorth gyda llenwi ffurflenni cais.

Mae'r Cyngor Cymuned eisoes wedi paratoi rhestr blaenoriaethau/cynllun cymuned drafft yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi 2016. Cytunwyd rhoi copi ar wefan y Cyngor Sir, yr hysbysfwrdd ac anfon copi at y Cynghorydd Hugh Evans. Awgrymwyd cysylltu'r cynllun cymuned gyda Chynllun Corfforaethol newydd Sir Ddinbych a bod y Cyngor Cymuned yn ymateb yn unol â hyn i ymgynghoriad Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y dyheadau i'r dyfodol [cofnod 279[ch]]. Cyfeiriwyd hefyd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [Cymru] 2015, sy'n ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Gallai'r prosiectau a nodwyd yn y cynllun cymuned fod yn gymwys i ddenu cyllid o gronfa gymunedol y fferm wynt a ddisgwylir yn y dyfodol agos.

### **281.5 Cofeb Rhyfel Llanfair DC – Gwaith adferol**

Adroddodd y Cynghorydd John Pugh, Cadeirydd, y gofynnwyd am ddyfynbrisiau ar gyfer atgyweirio'r gofeb, gyda'r costau'n uchel iawn, yr isaf oddeutu £25,000. Mae'r dewisiadau yn cynnwys rheiliau neu bolardiau a chadwynau. Gwneir trefniadau i roi cynllun braslun ar yr hysbysfwrdd yn Neuadd Eleanor yn fuan. Bwriedir chwilio am grantiau i dalu am gwaith.

### **281.6 Cysgodfan Bws – Llanfair DC**

Tynnodd un o'r trigolion sylw at gyflwr a glanweithdra'r gysgodfan. Cadarnhawyd y byddai'r Cyngor yn ymchwilio i'r mater ac yn ymdrin â'r broblem.

## **Part 2 – Eitemau Cyfrinachol – Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd**

### **282 MATERION CYLLID**

#### **282.1 Penodi Archwilydd Mewnol**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi gofyn am ddyfynbrisiau gan Mr Gwyn Davies, JDH Business Services Ltd ac S P Kell, Cyfrifwyr Siartredig, i ddarparu gwasanaeth archwilydd mewnol am y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017. Ni chafwyd ymateb gan Mr Gwyn Davies ac roedd Mr S P Kell wedi anfon ateb yn dweud nad oedd ganddo'r cymwysterau i gynnal archwiliadau o'r fath.

Gall cwmni JDH Business Services Ltd gyflawni'r gwaith sy'n ofynnol am ffi o £119.00 + TAW. Mae'r cwmni yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol i Gynghorau Lleol ac mae ganddo gleientiaid mewn nifer o siroedd yng ngogledd Cymru. Yn ychwanegol, mae gwasanaethau'r cwmni ar gael trwy e-bost neu dros y ffôn yn ystod y flwyddyn os yw'r Cyngor yn dymuno trafod unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y flwyddyn archwiliad. Nid oes ffi ychwanegol am y gwasanaeth hwn ond dylid anfon ymholiadau trwy e-bost yn gyntaf.

PENDERFYNWYD – penodi JDH Business Services am ffi o £119.00 + TAW.

#### **282.2 Crynodeb Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2016**

Cyflwynodd y Clerc ddatganiad ariannol ar gyfer y cyfrifon Cyffredinol a Busnes yn cwmpasu'r cyfnod hwn. Cynghorwyd yr aelodau mai'r balans yn y banc ar 31 Rhagfyr oedd £3645.81 yn y cyfrif cyfredol a £1022.40 yn y cyfrif busnes, sy'n gwneud cyfanswm o £4668.21 o gyllid ar gael.

PENDERFYNWYD - [a] derbyn y datganiad ariannol a  
[b] bod colofn olaf y datganiad yn cynnwys ffigurau amcangyfrif diwedd y flwyddyn lle  
bo'n briodol.

### **282.3 Datganiad Ariannol Atodol yn dangos gwir ymrwymadau ac ymrwymadau amcanol hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2016/17 yn cynnwys hawliad costau'r Clerc ar 4 Ionawr 2017**

Cyflwynodd y Clerc ddatganiad ariannol atodol i ddangos y byddai angen amcangyfrif o £4636.56 i fodloni'r ymrwymadau sy'n bodoli eisoes hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y ffigurau yn cynnwys darpariaeth ar gyfer hawliad treuliau'r Clerc am £236.43. Byddai hyn yn gadael balans o £31.65 ynghyd ag £1600.00 wedi'i glustnodi ar gyfer etholiadau'r Cyngor i'w cynnal ym mis Mai 2017.

### **282.4 Talu Cyfrifon/Anfonebau:**

PENDERFYNWYD – gwneud taliadau fel a ganlyn:

**282.4.1 Hawliad treuliau'r Clerc - £236.43**

**282.4.2 Argraffydd newydd i'r cyfrifiadur - £54.00**

**282.4.3 Coeden Nadolig - £56 gan Price, Llandegla a chyfraniad o £10 tuag at gostau trydan**

**282.4.4 Sandra Williams - Gwasanaeth Cyfieithu – Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Medi a 25 Hydref 2016 - £268.91**

**282.4.5 AVOW – Cyflog y Clerc, mis Tachwedd a Rhagfyr 2016, £257.86 a £872.25 yn ôl eu trefn [roedd cyflog Rhagfyr yn cynnwys ôl daliad a awdurdodwyd ar 2 Tachwedd – cofnod 269.2]**

**282.4.6 SLCC – Adnewyddu Aelodaeth Flynyddol 2017 Ffi - £78.00**

### **282.5 Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

Derbyniwyd y ceisiadau isod:

**282.5.1** Pwyllgor Chwaraeon Llanfair Dyffryn Clwyd – tuag at brynu deunyddiau cyhoeddusrwydd dwyieithog newydd [baneri] ac offer chwaraeon a choginio newydd – amcangyfrif y gost - £400

**282.5.2** Cymdeithas Sioe Amaethyddol Sir Ddinbych a Sir y Fflint – tuag at gostau cynnal sioe 2017

**282.5.3** Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor – tuag at gostau mynediad i'r rhyngwrwyd yn neuadd y pentref. Mae'r cost gosod y cysylltiad yn £149.99 a'r ffi gwasanaethu misol yn £34.99 fyddai'n gwneud y costau cynnal yn y flwyddyn gyntaf yn £569.87.

PENDERFYNWYD – gohirio penderfyniad ar yr holl geisiadau a restrir uchod.

### **283 COFRESTR ASEDAU A RHEOLI RISGIAU**

Cyflwynwyd templed cofnodi canfyddiadau. Cytunodd y Cyngorydd John Pugh, Cadeirydd, a'r Cyngorydd Steve Whipp, Is-gadeirydd, weithredu fel bo'n briodol i gwblhau'r adroddiad rheoli risgiau, gan nodi peryglon, graddfeydd risg a'r camau gweithredu sy'n ofynnol. Cytunodd y Cyngorydd Keith Mouldsdale archwilio'r tri hysbysfwrdd cymunedol a rhannu'r gwagle sydd ar gael ar gyfer hysbysiadau rhwng y Cyngor Cymuned a'r gymuned.

### **284 CYNLLUNIO OLYNIAETH**

PENDERFYNWYD – cymryd camau i sicrhau trosglwyddiad a pharhad llyfn busnes y Cyngor Cymuned yn absenoldeb Clerc mewn swydd. Dywedodd y Clerc y byddai'n

paratoi ffeil yn cynnwys gwybodaeth hanfodol i'w gadael yng nghwprdd y Cyngor Cymuned yn Neuadd Eleanor.

**285 UNRHYW FATER ARALL - Dim.**

**286 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – NOS FERCHER 1 MAWRTH 2017 AM 7 O'R GLOCH**

\_\_\_\_\_ CADEIRYDD

\_\_\_\_\_ DYDDIAD

Atodiad 1

Gwyllo Cyflymder Cymunedol Llanfair a Graigfechan  
2017

Ionawr

**Adroddiad ar weithgareddau yn ystod Rhagfyr 2016 i Gyngor Cymuned Llanfair DC.**

Mae trigolion wedi cael eu hyfforddi gan Heddlu Gogledd Cymru i gynnal arolygon ffyrdd a chynhaliwyd rhagor o arolygon yn ystod y mis. Gwnaeth y rhain ganolbwyntio ar Graigfechan a'r manau monitro oedd wrth tafarn y Three Pigeons ac ymhellach y tu hwnt i'r pentref tuag at Rhuthun ond yn parhau yn yr ardal 30 milltir yr awr.

Ers dechrau cynnal yr arolygon ym mis Hydref 2016 cofnodwyd 166 o gerbydau gyda chyflymder uwch na'r cyflymder a oddefir o 34 milltir yr awr a bennwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Cofnodwyd 82 o gerbydau ar gyflymder o 40 milltir yr awr neu fwy. Roedd 12 cerbyd yn gyrru'n gyflymach na 50 milltir yr awr a'r cyflymder uchaf a gofnodwyd oedd 70 milltir yr awr ac roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno hysbysiad o fwriad erlyn i'r cerbyd hwn. Cofnodwyd wyth cerbyd yn goresgyn y terfyn cyflymder ddwywaith a nodwyd bod saith cerbyd heb dreth ffordd neu brawf MOT dilys. Cofnodwyd un cerbyd yn goresgyn y terfyn cyflymder ar dri achlysur. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn mynd ar ôl y cerbydau heb dreth ffordd neu brawf MOT. Cofnodwyd dau dacsî yn cludo plant i'r ysgol yn gor-yrru a hysbyswyd Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych am hyn.

Bydd rhagor o arolygon yn cael eu cynnal yn y dyfodol ar sail ad hoc. Darparwyd dau safle yn Llanfair DC a phedwar safle yng Ngrraigfechan. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cadarnhau y bydd Cwnstabiliaid Arbennig ar gael i fynd gyda'r timau Gwyllo Cyflymder Cymunedol a bydd hyn yn golygu y gellir cyflwyno gwysiau am or-yrru yn hytrach na llythyrau rhybudd yn unig. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cynyddu presenoldeb y cerbydau Gan Bwyll a bydd faniau newydd yn cael eu defnyddio yn fuan, ac yn amlach.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwirfoddol ar gyfer Gwyllo Cyflymder Cymunedol gysylltu gyda Heddlu Gogledd Cymru trwy gyfrwng:

<http://www.northwales.police.uk/media/489355/Community-Speed-watchApplication-Form-V12.pdf>

Steve Whipp a Malcolm Ingham – Cydlynwyr Gwyllo Cyflymder Cymunedol

**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC nos Fercher, 1 Mawrth 2017 am 7.00 pm.

**PRESENNOL** – Y Cynghorwyr John Pugh [Cadeirydd], Steve Whipp

[Is-gadeirydd], David Baker, Wini Davies, Dennis Edwards, Tim Faire, Rosanne Jarvis, Jayne Mayers, Keith Mouldsdale a Medwen Roberts. Eirwen Godden, Clerc.

**HEFYD YN BRESENNOL** - Marc Musgrave, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, ynghyd â 18 o drigolion.

## **Rhan 1**

**YMDDIHEURIADAU** – Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, y Cynghorydd Hugh H Evans OBE.

### **287 DATGAN BUDDIANNAU**

Y Cynghorwyr John Pugh a Keith Mouldsdale o ran materion yn ymwneud â Phwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor, Mae'r ddau Gynghorydd yn ymddiriedolwyr.

### **288 COFNODION**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 4 Ionawr 2017.

**PENDERFYNWYD** – Cymeradwywyd y cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd yn amodol ar wneud y diwygiadau a ganlyn:

Cofnod 280.1 – newid 'daearegol' i archeolegol a 'thynnu sylw' i 'a thynnodd sylw'.

Cofnod 280.2 – dileu'r frawddeg olaf yn y paragraff cyntaf ac ychwanegu brawddeg yn yr ail baragraff i gadarnhau y byddai ymateb yn cael ei anfon i Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych i gofnodi sylwadau'r Cyngor.

Cofnod 282.2 – Crynodeb Incwm a Gwariant ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2016 – dylai cyfanswm y grantiau a chyfraniadau fod yn £1,748.00 ac nid £1,548.00.

### **289 MATERION YN CODI**

**289.1 Cofnod 280.1 Cais 20/2016/1137 Datblygiad arfaethedig 63 o dai yn**

**Llanfair DC** – mae'r Cyngor Sir wedi cadarnhau bod yr adolygiad terfynau cyflymder ar yr holl ffyrdd dosbarth A a B yn y sir wedi nodi estyniad bach i'r terfyn 30 milltir yr awr i'r gogledd o'r pentref. Yn dilyn cwblhau'r adolygiad lluniwyd rhestr flaenoriaethau, fel y byddai'r safleoedd â chyfradd damweiniau uwch yn derbyn sylw yn gyntaf. Nid oes gan y rhan o ffordd dan sylw yn Llanfair DC unrhyw ddamweiniau a achosodd anafiadau yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf felly mae'n cael blaenoriaeth isel. Gan fod y tir wrth ymyl yr estyniad arfaethedig yn y Cynllun Datblygu Lleol mae'n debygol iawn y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn i'r datblygwyr ymgymryd â'r gwaith fel rhan o'r caniatâd cynllunio/amod cynllunio.

Yn y cyfamser mae'r datblygwr wedi cyflwyno dau gynllun diwygiedig i'r Adran Cynllunio, ac rydym yn disgwyl am fanylion y trefniadau ailymgynghori. Bydd y cynlluniau newydd ar gael i bawb eu gweld yn neuadd y pentref, fel o'r blaen, a bydd hysbysiad yn cael ei osod ar wefan a hysbysfyddau'r Cyngor Cymuned. Mae Awdurdod Addysg Sir Ddinbych yn pwysu am fynediad i gerddwyr i'r pentref trwy'r safle arfaethedig.

### **299 GOHEBIAETH**

**299.1 Materion Pentref Llanfair DC** Neges e-bost dyddiedig 15 Ionawr gan un o'r trigolion yn cyfeirio at y Cynllun Cymuned drafft. Cyflwynwyd yr awgrymiadau ychwanegol a ganlyn – mynediad i'r anabl i neuadd y pentref, hysbyswrdd newydd

ar y llecyn gwyrdd ger Bron y Clwyd, biniau ar gyfer baw ci ger Bron y Clwyd a'r groesffordd tuag at Bwllglas, caffi cymunedol, grŵp rhieni a phlant bach a chylchlythyr i'r pentref. Dywedodd y Cyngor Sir nad yw'n arferiad gosod biniau baw ci mwyach. Gellir rhoi baw ci mewn biniau sbwriel 'arferol' ar y stryd ac mae'n cael ei brosesu yr un fath â gwastraff arall yn deillio o lanhau'r ffyrdd. Mae Cyngorau Tref/Cymuned eraill wedi talu am osod biniau baw ci, ac yn talu tâl blynyddol am gynnal a chadw/gwagu'r biniau [oddeutu £25 y mis] petai'r Cyngor yn dymuno ymchwilio i'r dewis hwn.

Adroddodd y Clerc y byddai hysbysfwrdd newydd yn costio mwy na £1,000 a bod cost bin baw ci 25 litr yn dechrau o £270.00. Dywedodd trigolion bod cŵn yn baeddu yn broblem benodol yn Llanfair DC.

#### **PENDERFYNWYD –**

[a] ystyried adleoli/adnewyddu'r hysbysfwrdd presennol yn Llanfair DC pan fo'r ysgol newydd wedi'i hadeiladu, a

[b] gwneud ymholiadau o ran biniau sbwriel arferol ar gyfer Bron y Clwyd, y groesffordd tuag at Bwllglas, pentref Graigfechan a Phentrecelyn.

**299.2 Holiadur Rheoli Galwyr Di-rybudd** Neges e-bost dyddedig 1 Chwefror oddi wrth Ian Millington, Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych. Nifer o flynyddoedd yn ôl roedd cydweithwyr yn Heddlu Gogledd Cymru ac aelodau'r gymuned wedi sefydlu nifer o Barthau Dim Galwyr Di-groeso yn Sir Ddinbych. Cefnogwyd y parthau gan Wasanaeth Safonau Masnach Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor Sir yn y broses o werthuso'r cynllun i ganfod a yw'r parthau sy'n bodoli yn parhau i fod o fudd i drigolion lleol. Roedd y Clerc wedi anfon y manylion at yr aelodau i gael eu sylwadau. Nid yw Llanfair DC ar y rhestr.

Mae nifer o gynlluniau eraill yn gweithredu yn yr ardal, fel gwarchod y gymdogaeth, cynllun rhybudd ffôn gan yr heddlu a chynllun gwarchod ffermydd. Mynegodd rhai trigolion ddiddordeb mewn datblygu neu ailsefydlu cynlluniau lleol.

**PENDERFYNWYD –** nodi'r cynnwys a holi a oes modd cynnwys Llanfair DC yn y rhestr parthau.

**299.3 Datganiad Polisi Trwyddedu** Neges e-bost dyddiedig 6 Chwefror oddi wrth Mr Ian Millington, Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych. Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn rheoleiddio unigolion a mangreoedd sy'n darparu gweithgareddau trwyddedadwy. Mae gan y Cyngor ddyletswydd dan y Ddeddf i gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu trwy hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, sef: atal trosedd ac anhrefn, atal niwsans cyhoeddus, sicrhau diogelwch y cyhoedd ac amddiffyn plant rhag niwed. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi adolygu'r polisi cyfredol a chynhyrchu fersiwn wedi'i ddiweddarau. Gwahoddir sylwadau ar y polisi erbyn 6 Mawrth i [trwyddedu@sirddinbych.gov.uk](mailto:trwyddedu@sirddinbych.gov.uk).

**PENDERFYNWYD –** nodi'r cynnwys gyda chais i'r Cyngor Sir gynnwys rhestr o'r newidiadau arfaethedig fel crynodeb gweithredol pan fo unrhyw ddogfennau'n cael eu hadolygu yn y dyfodol.

### **300 MATERION CYNLLUNIO**

**300.1 Ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio** ar gyfer newid defnydd tir i ffurfio estyniad i'r maes carafanau presennol, i gynnwys 20 llain i garafanau teithio gyda chyswllt trydan, adeiladu bloc toiledau/cawodydd/golchi dillad, llunio trac mynediad i gerbydau, lle chwarae a'r holl waith cysylltiedig ym Mharc Carafanau Llanbenwch, Llanfair DC.

Gwnaeth Cynghorwyr ymweld â'r safle ar 9 Chwefror 2017. Nododd yr aelodau eu cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig ar y cam hwn, gan fod y safle yn ddelfrydol ar gyfer y defnydd hwn a gallai ddarparu atyniad twristiaeth da i'r ardal, yn amodol ar ystyried nifer o faterion ymhellach. Er enghraifft, nid oedd digon o fanylion yn y cynlluniau a gyflwynwyd ynghylch y trefniadau ar gyfer mynediad i ac o'r safle, gallai defnyddio llechi ar gyfer lleiniau'r carafanau wneud symud y carafanau'n anodd, dylai cynllun gosod y safle ddangos manylion carthffosiaeth, dŵr, trydan a'r manau cyswllt trydan ar y safle, dangos y lle storio biniau, goleuadau, tirlunio, manau tân ac ati. Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys llwybr mynd â chi am dro, ni ddylid caniatáu cerddoriaeth ac eithrio trwy'r adran drwyddedu, dylid adnewyddu'r carafanau sefydlog presennol, cyfnod uchafswm o 21 diwrnod i garafanau teithiol a chael deufis y flwyddyn pan na fyddai unrhyw garafanau teithiol ar y safle.

Roedd yr aelodau o'r farn bod canllawiau'r Caravan Club, ynghyd â Chanllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir Ddinbych – Carafanau, Cabanau Gwyliau a Gwersylla – yn darparu canllawiau rhagorol ar gyfer llywio dyluniad a gweithredu'r safle. Anfonwyd ymateb ysgrifenedig at yr asiant ar 20 Chwefror 2017.

**PENDERFYNWYD** – rhoi copi o ymateb y Cyngor Cymuned ar ei wefan. Anogodd y Cadeirydd drigolion i ymateb yn unigol i geisiadau cynllunio, gan nodi eu rhesymau neu eu pryderon.

**300.2 Ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ynghylch Carafanau, Cabanau Gwyliau a Gwersylla.** Roedd y ddogfen ddrafft hon yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 30 Ionawr tan 5pm ar 27 Mawrth 2017.

**PENDERFYNWYD** – Croesawodd yr aelodau gynnwys y ddogfen fel arweiniad rhagorol ar gyfer annog twristiaeth yn yr ardal.

### **300.3 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Hysbysiad Gorfodi – Carafan yn Erw Fair, Llanfair DC – Diweddariad**

Adroddwyd bod Hysbysiad Rhybudd Gorfodi wedi'i gyflwyno ar 14 Tachwedd 2016 yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cais cynllunio ôl-weithredol cyn pen 28 diwrnod. Cyflwynwyd cais cynllunio ond nid oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth atodol a oedd yn ofynnol er mwyn ei ddilysu a'i benderfynu gan swyddog cynllunio. Er gwaethaf rhoi cyngor ynghylch y dogfennau ychwanegol a oedd yn ofynnol, ni dderbyniwyd y dogfennau hynny. Nid oedd gan yr Awdurdod Cynllunio unrhyw ddewis ac eithrio cyflwyno Hysbysiad Gorfodi i symud y garafan oddi ar y tir. Y cyfnod cydymffurfio yw cyn pen 4 wythnos i 16 Mawrth 2017 onibai y cyflwynir apêl cyn hynny.

Yn y cyfamser cyflwynwyd **cais cynllunio 20/2016/1224** ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio estyniad i gwrtil preswyl Erw Fair. Mae'r cais yn gofyn am wneud yr ardd yn fwy o faint ond ni nodir beth fydd defnydd y tir dan sylw.

## **PENDERFYNWYD –**

1 Bod y Cyngor yn cefnogi'r cais cyn belled

[a] nad yw'r neiwd defnydd yn

[i] groes i bolisi cenedlaethol ynghylch gwagleoedd gwyrdd

[ii] groes i amodau'r Cynllun Datblygu Lleol yn gyffredinol

[iii] cael effaith gweledol andwyol ar y tirwedd hanesyddol

[b] bod y garafan yn cael ei sgrinio o ardal ddynodedig Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

2 Nodi na chynigiwyd unrhyw amgylchiadau personol eithriadol o blaid y cais nac unrhyw reswm. Petai'r cais yn cael ei ganiatáu gallai hyn ganiatáu datblygu yn y cwrtl a allai gael effaith weledol andwyol.

3 Gofyn i'r Cyngor Sir a yw'r cais yn cydymffurfio â'r Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft – Carafanau, Cabanau Gwyliau a Gwersylla sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

## **301 PRIFYRDD A'R AMGYLCHEDD**

### **301.1 Diweddariad ar Gynllun Arafu Traffig Arfaethedig – Graigfechan**

Adroddodd Mr Marc Musgrave, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ddinbych, ar y broses ymgynghori ddiweddar gyda thrigolion lleol. Dywedodd bod y gefnogaeth fwyaf i arwyddion fflachio sy'n cael eu gweithredu gan gyflymder cerbydau, a fyddai wedi'u lleoli yn y pentref ac yn dangos "SLOW / ARAF". Roedd hefyd o'r farn y byddai arwyddion rhybudd cyflymder ymlaen llaw yn briodol wrth ddynesu at y pentref. Roedd yr aelodau'n teimlo y dylid cynnwys yr holl ffyrdd dynesu at y pentref.

Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch y posibilrwydd o gamera cyflymder, dywedodd Mr Musgrave na fu unrhyw gofnod o ddamweiniau a achosodd anafiadau ym mhentref Graigfechan yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Felly nid yw'r safle yn gymwys ar gyfer darpariaeth camera gorfodaeth sefydlog.

Hysbyswyd Mr Musgrave fod y Cyngor Cymuned yn parhau i gefnogi'r gweithgareddau Gwyliau Cyflymder gan y Gymuned yn y pentref ac y byddent yn croesawu presenoldeb y bartneriaeth Gan Bwyll i gefnogi hyn hefyd. Er bod y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cefnogi'r fenter, ni fedrant orfodi'r gyfraith heb bresenoldeb heddlu. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Musgrave am ddod i'r cyfarfod ac am ymgysylltu a thrafod gyda'r Cyngor Cymuned a'r gymuned ehangach.

**PENDERFYNWYD** – bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r dewis a ffafir, sef goleuadau fflachio a weithredir gan gyflymder cerbydau ynghyd ag arwyddion ar bob un o'r ffyrdd i mewn i'r pentref.

### **301.2 Cyngor Sir Ddinbych – Cais Cronfeydd Cymudol gan Bwyllgor Rheoli**

**Neuadd Eleanor** Roedd y Clerc wedi dosbarthu copi o'r cais i gael sylwadau gan Aelodau – gosod tarmac ar yr estyniad i'r maes parcio cymunedol a gosod ffens ar hyd y gwrych wrth ymyl y ffordd [£5,162.88]. Mae'r cynllun wedi'i glustnodi fel prif flaenoriaeth yng nghynllun cymunedol y Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd aelodau eu bod yn llwyr gefnogi'r cais am arian. Adroddwyd bod penderfyniad ynghylch a oedd cyllid ar gael i'w wneud yn fuan iawn.

### **301.3 Cofeb Rhyfel Llanfair DC – Diweddariad ar geisiadau am gyllid grant i'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel a Cadw**

Adroddodd y Cadeirydd fod yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel wedi adolygu ffurflen cyn cyflwyno cais y Cyngor Cymuned, ac o'r wybodaeth a'r ffotograffau a gyflwynwyd roeddynt o'r farn bod rhannau o'r prosiect yn gymwys ar gyfer cyllid trwy'r cynlluniau grant i gefnogi cofebau rhyfel. Er mwyn asesu cynnig y Cyngor yn llawn mae angen cryn dipyn o wybodaeth a thystiolaeth gefnogol ac mae'n rhaid i'r gwaith arfaethedig fod yn unol â'r arferion cadwraeth gorau. Derbyniwyd dyfynbrisiau ond mae'r costau'n sylweddol a swm y grant yn fach. Holodd rhai aelodau a fyddai'n bosibl cael cyllid o ffynonellau eraill, megis cyllid cronfa gymudol neu Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog.

Yn y cyfamswr gwnaed gwaith ymchwil i hanes y gofeb rhyfel. Dywedodd y Clerc y byddai'n falch o dderbyn gwybodaeth leol a ffotograffau i'w hychwanegu at y casgliad. Mae'r gofeb rhyfel wedi'i dynodi yn rhestredig Gradd II, yn coffáu'r rhai o'r pentref a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd. Mae erthygl yn y Denbighshire Free Press, rhifyn dydd Sadwrn, 8 Ionawr 1921, yn cyfeirio at ddadorchudio Cofeb Rhyfel Llanfair DC, gan nodi – "The Trustees, with the consent of the Charity Commissioners, have sold the site – about 69 square yards – to the Memorial Committee to be the property of the parish."

Hefyd adroddwyd bod plac wedi'i osod ar wal gyferbyn â thafarn y Ceffyl Gwyn gan drigolion lleol ger y goeden gyntaf mewn rhes o 14 o goed wedi'u plannu gan y teulu Corkhill a arferai fyw yn Barnfold, Llanfair DC. Plannwyd y coed er coffa am eu mab a laddwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

## **302 MATERION CYMUNEDOL**

**302.1 Etholiadau'r Cyngor 4 Mai 2017** – Bydd pecynnau enwebu ar gael yn yr wythnos yn dechrau 6 Mawrth 2017. Bydd gan ymgeiswyr rhwng 16 Mawrth a 4pm ar 4 Ebrill 2017 i gyflwyno papurau enwebu trwy law yn ystod dyddiau gwaith i Swyddfeydd y Cyngor yn Rhuthun. Bydd hysbysiadau i'w gweld ar hysbysfyrdau a gwefan y Cyngor Cymuned ar 15 Mawrth.

**302.2 Ymatebwyr Cyntaf y Gymuned a Diffibrilydd** – Trafodwyd y mater hwn yn flaenorol gan y Cyngor Cymuned ar 6 Ionawr 2016 pan ddyfarnwyd grant o £500 tuag at waith Ymatebwyr Cyntaf y Gymuned Rhuthun/Pwllglas. Roedd consensws cyffredinol y dylid cael diffibrilydd yn Llanfair DC pan fo cyllid ar gael neu gyfraniadau'n cael eu derbyn, fel yr awgrymwyd gan drigolyn. Hefyd adroddwyd bod Ysgol Llanfair wedi gofyn am gyfraniad tuag at gost diffibrilydd.

**PENDERFYNWYD** – bod angen mwy o wybodaeth am y cyllid sydd ar gael a chysylltu gyda Rose Hislop, Ymatebydd Cyntaf y Gymuned, i gael cyngor ynghylch y lleoliad gorau ar gyfer diffibrilydd.

### **302.3 Gadael sbwriel yn anghyfreithlon**

Cynghorwyd trigolion i hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn uniongyrchol am unrhyw achosion o adael sbwriel yn anghyfreithlon.

### **302.4 Cysgodfan bws yn Llanfair DC**



Mewn ymateb i ymholiad am y gysgodfan dywedodd y Cyngorwyr Steve Whipp a Keith Mouldsdales eu bod wedi sgubo a glanhau'r gysgodfan yn ddiweddar.

## **Rhan 2 – Eitemau Cyfrinachol – Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd**

### **303 MATERION CYLLID**

#### **303.1 Crynodeb Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 28 Chwefror 2017**

Cyflwynodd y Clerc ddatganiad ariannol ar gyfer y cyfrifon Cyffredinol a Busnes am y cyfnod hwn. Cyngorwyd yr aelodau mae'r balans yn y banc ar 28 Chwefror 2017 oedd £963.42 yn y cyfrif cyfredol a £1,022.46 yn y cyfrif busnes. Awgrymodd aelod ystyried y posibilrwydd o gael gwirfoddolwr i wneud y gwaith cyfieithu i leihau'r costau.

**PENDERFYNWYD** – derbyn y datganiad ariannol a rhoi crynodeb o gyfrifon diwedd y flwyddyn ar wefan y Cyngor Cymuned.

#### **303.2 Talu Cyfrifon/Anfonebau**

**PENDERFYNWYD** – gwneud taliadau fel a ganlyn:

**303.2.1 AVOW** – Cyflog y Clerc, Ionawr [£290.75], Chwefror [£290.75 + costau cyflogres £24.00] a Mawrth 2017 [£290.75 + costau cyflogres £12.00].

**303.2.2 Sandra Williams** - Gwasanaeth Cyfieithu – Cofnodion y Cyngor dyddiedig 2 Tachwedd a 14 Rhagfyr 2016 - £285.00

**303.2.3 Swyddfa Archwilio Cymru** – Ffi Archwiliad Allanol 2015/16 - £216.30

**303.2.4 Treuliau'r Clerc** – £39.71 fel a ganlyn:

Argraffu £17.91 ynghyd â ffi Archifdy £3.00	£21.91
Costau postio	£ 6.60
Cwrs CiLCA, 21 Chwefror 2017 [Rolau, Dyletswyddau a Chyfrifoldebau] yn yr Wyddgrug – costau teithio - 20 milltir @ 45 ceiniog - £9.00 + £1 parcio	£10.00
Costau offer – gorïad ychwanegol ar gyfer y cwpwrdd	£ 2.20

**303.3 Ceisiadau am Gymorth Ariannol** – Derbyniwyd y ceisiadau a ganlyn:

**303.3.1** Ysgol Llanfair – cymorth ariannol tuag at gost diffibrilydd

**303.3.2** Y Groes Goch Brydeinig – cyllid i gefnogi gwasanaethau lleol

**303.3.3** Eglwys Llanfair – tuag at gostau torri'r glaswellt

**303.3.4** Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor – tuag at fynediad i'r rhyngwrdd

**PENDERFYNWYD** – gohirio penderfyniadau ar yr holl geisiadau a restrwyd uchod tan ar ôl Etholiadau'r Cyngor.

**303.4 Gwasanaeth Cyflogres** – Adroddodd y Clerc fod AVOW wedi dweud y byddai'r ffi cyflogres yn debygol o gynyddu o £12.00 y mis i £12.50 y mis o 1 Ebrill 2017. Gofynnodd y Clerc am ganiatâd i wneud trefniadau i dalu AVOW trwy archeb sefydlog bob mis. Hefyd gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'n ffurfiol y cynnydd yng nghyflog y Clerc o £11.27 i £11.74 yr awr o 1 Ebrill 2017. Mae hyn yn unol â'r Cytundeb Cenedlaethol ar gyflogau ac amodau Gwasanaethau Llywodraeth Lleol

sy'n berthnasol i Glercod. Bydd oriau blynyddol y Clerc yn parhau ar 300, ac ar bwynt cyflog 25.

**PENDERFYNWYD** – o 1 Ebrill 2017

**303.4.1** Talu'r ffioedd cyflogres trwy archeb sefydlog bob mis

**303.4.2** Cynyddu cyflog y Clerc i £11.74 yr awr.

**304 COFRESTR ASEDAU A RHEOLI RISGIAU**

Mae'r mater mewn llaw a dylai'r gwaith gael ei gwblhau cyn diwedd mis Mawrth.

**305 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – DYDD MERCHER 17 MAI 2017**

Gan nad oedd rhagor o fusnes gorffennodd y cyfarfod am 9.45 pm.

\_\_\_\_\_ CADEIRYDD

\_\_\_\_\_ DYDDIAD